

# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Ebrill 2014

Rhif 443

50c

## Mae 9Bach yn Tincian!

**M**AE 9Bach, y grŵp eclecticig o Gerlan ar fin rhyddhau eu hail record o dan y teitl 'Tincian'. Ffurfiwyd y grŵp gan Lisa Jên a Martin Hoyland nôl yn 2005 ac mae eu llwyddiant wedi parhau i dyfu byth ers hynny. Mae'r albwm newydd yn gofnod atmosfferig ac emosiynol ac yn adlewyrchu eu hamgylchedd cartrefol yn Gerlan. 'Tincian' yw'r disgrifiad perffaith o hyn.



Fel yr eglura Lisa, 'Gall tincian olygu llawer o bethau. Mae'r ystyr yn amrywio mewn gwahanol rannau o'r wlad.

Dewisodd 9Bach Tincian yn deitl albwm am nifer o resymau. Mae'n air hen ffasiwn sy'n marw ac mae ganddo sain arbennig. Mae'r caneuon ar yr albwm yn dweud stori. Mae rhai ohonynt yn hunangofiannol, rhai yn stori

rhywun arall a rhai yn ddychmygol.

Dywed Lisa y cafodd yr albwm ei ysgrifennu mewn nifer o leoedd: 'yng nghefn 4x4 yn teithio i gymuned anghysbell Papunya yng Ngogledd Tiriogaeth Awstralia, mewn festri capel ym Methesda, ac mae'r rhan fwyaf wedi cael eu hysgrifennu yn Llanddewi Brefi, Ceredigion. Fe ffeidiais fy hun eisau ysgrifennu am gartref ...

y tirwedd, natur, teuluoedd a llwynogod'.

Mae'r caneuon ar Tincian yn adlewyrchu gwreiddiau cryf 9Bach yn y Gerlan yn ogystal â'u teithiau rhyngwladol. Maent wedi cael eu chwarae'n fyw yn Sbaen, yr Iseldiroedd, a Chanada ac maent wedi mynd mor bell ag Awstralia i gydweithio â'r Du Braich Band Company – cwmni theatr arloesol sy'n canolbwyntio ar brofiad a hunaniaeth frodorol Awstralia. Mae Lisa hefyd yn cydweithio yn eang gyda Gruff Rhys.

Rydym i gyd yn yr ardal hon yn ymfalchïo yn llwyddiant ysgubol y grŵp 9bach. Rydym yn dymuno'r gorau i Lisa a Martin a 9bach gyda'r albwm newydd, gyda'r daith, a gyda'u gyrfa yn y dyfodol, ac yn ymfalchïo yn llwyddiant pobl ifanc lleol. Da iawn chi, a phob hwy!

Rhyddheir yr albwm newydd ar 12 Mai 2014.

**DARLITH GOFFA DAFYDD ORWIG  
2014**

### **Rhyfel Mawr Cynan**

Traddodir y ddarlith gan  
**Yr Athro Gerwyn Williams**

yn

**Llyfrgell Bethesda**

Nos Lun 9 Mehefin 2014

7.30 o'r gloch  
Croeso Cynnes i Bawb

**Mynediad am Ddim**

*Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Gwynedd*

# Llais Ogwan

## PANEL GOLYGYDDOL

**Derfel Roberts** ☎ 600965  
hylaw@btinternet.com

**Ieuan Wyn** ☎ 600297  
cylch@tiscali.co.uk

**Lowri Roberts** ☎ 600490  
l.roberts11@btinternet.com

**Dewi Llewelyn Siôn** ☎ 07901  
dewision@hotmail.co.uk 913901

**Fiona Cadwaladr Owen** ☎ 601592  
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

**Siân Esmor Rees** ☎ 600427  
sian\_esmor@btinternet.com

**Neville Hughes** ☎ 600853  
nev\_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan** ☎ 602440  
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard** ☎ 07402  
trystanrp1@gmail.com 373444

**Walter W Williams** ☎ 601167  
waltermenai@yahoo.co.uk

### SWYDDOGION

#### Cadeirydd:

Dewi A Morgan, Park Villa,  
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,  
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440  
dewimorgan@live.co.uk

#### Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,  
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853  
nev\_hughes@btinternet.com

#### Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,  
3 Sgwâr Buddug, Bethesda  
LL57 3AH ☎ 601415  
garethllwyd197@btinternet.com

#### Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,  
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872  
godfreydnortham@hotmail.co.uk

#### Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,  
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184  
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Trystan Pritchard.

Golygydd mis Mai fydd Dewi A. Morgan,  
Park Villa, Lôn Newydd Coetmor,  
Bethesda, LL57 3DT. 01248 602440.  
dewimorgan@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher,  
30 Ebrill, os gwelwch yn dda. Plygu nos  
lau, 15 Mai, yng Nghanolfan Cefnfaes  
am 6.45.

**Ariennir yn rhannol  
gan Lywodraeth Cymru**

## DYDDIADUR Y DYFFRYN

### Mis Ebrill

24 Merched y Wawr Bethesda. Gwaith Celf  
Diana Williams. Cefnfaes am 7.00

29 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen.  
Cefnfaes am 7.00

### Mis Mai

01 Sefydliad y Merched Carneddi. Buddug  
Jones â'i chi tywys. Cefnfaes am 7.00

03 Bore Coffi Neuadd Talgai.  
Cefnfaes 10.00 – 12.00

10 Marchnad Ogwen.  
Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 12.00

10 Bore Coffi Cymorth Cristnogol.  
Caffi Coed y Brenin 10.00 – 12.00

12 Merched y Wawr Tregarth. Garddio gyda  
Medwyn Williams. Festri Shiloh am 7.00

15 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

16 Y Moniars yng Nghlwb Criced a Bowlio  
Bethesda. Drysau ar agor am 7.00

18 Cymanfa Dosbarth Bangor a Bethesda  
yn Mynydd Llandygái am 5.30

22 Pleidleisio – Etholiadau Senedd Ewrop.

28 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.  
Cefnfaes am 7.30.

29 Merched y Wawr Bethesda. Gwibdaith.

31 Bore Coffi RNLI. Cefnfaes 10.00 – 12.00

### Mis Mehefin

14 Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen.

14 Marchnad Ogwen. Cae Sioe  
Amaethyddol Dyffryn Ogwen.

## CYWIRIAD

Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol  
Dyffryn Ogwen eleni ar nos  
Wener a nos Sadwrn 21, 22  
Tachwedd ac nid ar y dyddiadau  
sy'n ymddangos yng Nghalendr  
Llais Ogwan.

Ymddiheurwn am y llithriad.

### Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20  
Ewrop - £30  
Gweddill y Byd - £40



Owen G. Jones, 1 Erw Las,  
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN  
post@llaisogwan.com

☎ 01248 600184

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r  
panel golygyddol o angenrheidrwydd  
yn cytuno â phob barn a fynegir gan  
ein cyfranwyr.

## Rhoddion i'r Llais

- £10 Dienw, Talybont  
£20 Mrs Elizabeth Griffiths, 13 Dolhelyg  
er cof am ei phriod, Robert (Bob) a  
fu farw flwyddyn yn ôl.  
"Mewn hiraeth dwys!"  
£10 Er cof am Herbert Williams,  
Stryd Ganol, gan y teulu.  
£14.50 Deri a Megan Tomos, Llanllechid.

### Diolch yn Fawr

## Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael  
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn  
copi o'r Llais ar gasét bob mis,  
cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** ☎ 601415  
**Neville Hughes** ☎ 600853

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

### Gwobrau Mis Ebrill

- £30.00 (106) Beryl Hughes  
Meini Gleision, Tregarth  
£20.00 (98) Godfrey Northam  
4 Llwyn Bedw, Rachub  
£10.00 (90) Carys Williams,  
12 Tal y Cae, Tregarth.  
£ 5.00 (19) Gareth Llwyd,  
Talgarnedd, Bethesda

## Y Llais ar Trydar

**Mae Llais Ogwan wedi lansio  
cyfrif Trydar y mis yma**

Dilynwch ni am y newyddion  
diweddaraf neu cysylltwch â ni os  
oes ganddoch chi stori neu  
newyddion lleol.



@Llais\_Ogwan

### Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,  
50 Stryd Fawr Bethesda,  
LL57 3AN ☎ 07902 362 213  
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,  
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY  
☎ 01248 601669

## Annwyl Ddarllenwyr

Gwenlais  
8 Bron Arfon  
Llanllechid  
LL57 3LW  
(01248) 600427  
sian\_esmor@btinternet.com

### Annwyl Ddarllenwyr,

Tybed fedrwch chi ein helpu ni? Ym mis Awst byddwn fel teulu'n teithio i Fflandrys yng Ngwlad Belg, i seremoni arbennig lle bydd cofeb i goffâu'r Cymry fu farw yno yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn cael ei dadorchuddio. Bydd ein mab, Gwydion, sy'n ddisgybl blwyddyn 6 yn Ysgol Llanllechid, yn darllen hanes milwr cyffredin o Ogledd Cymru, a gosod llun ohono ger y gofeb.

Daeth hyn i fod drwy'r berthynas arbennig sydd gan Ysgol Llanllechid â Chôr Rygbi Gogledd Cymru, sy'n gôr swyddogol y Cofio.

Er bod gan Gwydion yr hawl i sôn am filwr o unrhyw ran o'r Gogledd (gan y bydd rhywun arall yn cynrychioli'r De), mi fuasai'n well gennym ni iddo adrodd hanes milwr o Ddyffryn Ogwen, os gallwn ni ddod o hyd i ddigon o wybodaeth.

Dyma'n cais ni, felly: a wyddoch chi am rywun a fyddai'n addas? A oes gan un o ddarllenwyr y Llais berthynas o'r Dyffryn a fu farw yn Fflandrys yn y Rhyfel Mawr? Ac os oes, a fyddoch chi'n fodlon iddo gael ei goffâu yn y seremoni?

Os ydych chi'n meddwl y gallwch ein helpu, a wnewch chi gysylltu â mi drwy lythyr, ffôn neu e-bost, a hynny mor fuan â phosib' os gwelwch yn dda? Yna gallwn drefnu i gyfarfod er mwyn trafod ymhellach.

Yn gywir,

Siân Esmor Rees

### Annwyl Olygydd,

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â'r llun a ymddangosodd yn Rhifyn Chwefror o grŵp drama Ysgol Dyffryn Ogwen a dynnwyd yn 1954. Yn y llun mae Alwena fy chwaer sy'n byw yng Nghefnddwysarn, ger Y Bala, hefyd Eluned sy'n byw yn y Groeslon.

Ar y pryd roedd Eluned yn byw yn Erw Faen, Tregarth ac Alwena a minnau yn byw yn Nhanrhiw.

Byddaf yn derbyn Llais Ogwan yn rheolaidd ac yn mwynhau cael y newyddion diweddera a'r erthyglau diddorol.

Yn gywir iawn,  
Gwen E. Jones.(Porthmadog)



### Rhyfadd o Fyd

Dwi'n meddwl mai'r esgus mwyaf tila i mi glywed erioed oedd yr un glywish i pan ro'n i'n ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen.

Roedd hi'n arferiad gan ryw hanner dwsin ohonon ni ddianc o'r ysgol bob amser cinio dydd Mawrth er mwyn mynd i lawr i siop Nymbyr Won i brynu cacan bwdin.

Sleifio allan drwy'r giât ger Rhes William, ar hyd Bryntirion i gyfeiriad Pant Dreiniog, troi i lawr tuag at Tŷ Plisman, yna dros Benygraig a chroesi'r A5 ger Gorffwysfan - taith y bu cenedlaethau o blant drwg Ysgol Dyffryn Ogwen yn ei dilyn mae'n siŵr! Hon oedd y ffordd orau i osgoi cael eich dal, ac fel arfer dyma'r ffordd roeddan ni yn ei chymryd yn ôl i'r ysgol hefyd - heblaw am un tro. Wrth ddod i lawr o Benygraig tua Tŷ Plisman cafodd rhywun y syniad i ni groesi'r lôn tuag at gornel isaf iard Ysgol Cefnfaes, mynd heibio'r ochr isaf i Gefnfaes, ac yna i fyni'r llwybr bach o Res Mostyn i Ffordd Coetmor. Y canllath cyntaf oedd y gambl, yn y fan honno roedd y peryg i ni gael ein dal, ond penderfynwyd cymryd y risg.

Yn anffodus, pan roeddan ni tua hanner y ffordd i gysgod a diogelwch wal iard Ysgol Cefnfaes, dyma'r peth gwaetha' allai ddiwydd yn digwydd. Car brown a beige, tŵ-tôn y prifathro, Ronald Pardoe, yn dod i lawr yr allt o gyfeiriad Ffordd Coetmor. Roeddan ni yn y lle gwaetha posib, heb gyfle i redeg nac i guddio. Stopiodd y car, agorodd y ffenest, a gofynnodd y prifathro yn ei Gymraeg gora' "What are you boys doing here?"

Fedwrn i ddim meddwl am ddim i'w ddweud, roedd hi'n ffêr cop o'r ffêr cops ac ro'n i wedi dechra meddwl tybad be fasa'r gosb - awr neu ddwy yn ychwanegol yn yr ysgol ar derfyn dydd (eto!) a sgwennu cant o linellau neu bennod o lyfr ella (eto!). Dyna pryd clywish i un o'r esgusodion salaf i mi glywed erioed. Atebodd un ohonon ni:

"My penny rolled down from Top School and we're looking for it"

Dwi'n cofio meddwl - Wel dyna ni rŵan. Beth bynnag ydi'r gosb eithaf, rydan ni am ei chael hi am hynna. Chwecch ohonon ni yn chwilio am geiniog oedd wedi rowlio yn bellach na rowlodd yr un geiniog erioed. Ond os oedd yr esgus yn anghredadwy, roedd ymateb y prifathro yn fwy anghredadwy fyth. Dywedodd hwnnw

"Well as soon as you've found it, go back to school" cyn anelu'r tŵ-tôn i gyfeiriad y stryd fawr i chwilio am fwy o ddisgyblion anystywallt. Dyma'r gweddill ohonon ni yn troi ar y cyfaill am feddwl am esgus mor wirion, ond ei ateb o oedd

"Wel mi weithiodd o do"

Flynnyddoedd yn ddiweddarach deallais fod y cyfaill hwnnw wedi dod yn brifathro ei hun, sy'n codi'r cwestiwn - ydi prifathrawon yn frîd rhyfadd ac unigryw, neu a oes angen lefel anhygoel o ddychymyg i fod yn brifathro? Mae o'n gneud i chi feddwl tydi!

Da te! Os oes gennych unrhyw stori am esgusodion (neu unrhyw hanes o ddiddordeb i ddarllenwyr y Llais wrth gwrs) - mi fuaswn yn falch o glywed gennych.

Cysylltwch trwy e-bost [jan@erwlas.freemove.co.uk](mailto:jan@erwlas.freemove.co.uk) neu Mrs J Jones,  
1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN

## Llys Dafydd



Mae gwaith wedi ei wneud i ddatrys problem y dŵr ac mae'r safle newydd gael ei dacluso. O hyn ymlaen ni fydd raid talu ffi am ddefnyddio'r safle, ond codir ffi am ddefnyddio'r ciosg neu'r babell. Rhaid sicrhau bod lle ar gael trwy gysylltu â Caren Brown (rhif ffôn : 01248 602509).

# Bethesda

**Llên Ogwen,**  
Stryd Fawr, Bethesda  
☎ 600431

**Siop Kathy**  
Stryd Fawr, Bethesda

**Fiona Cadwaladr Owen,**  
Bryn Meurig Bach,  
Coed y Parc, Bethesda,  
LL57 4YW ☎ 601592

**Joe Hughes,**  
Awel y Nant,  
Ffordd Ffrydlas, Bethesda  
☎ 601902

## Poeni Garw

Mae llawer o drigolion Dyffyn Ogwen wedi bod yn trafod dros 'Facebook' yn ystod yr wythnosau diwethaf gan fynegi pryder mawr am y dirywiad o fewn Cymuned Bethesda.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 'Grŵp Cymunedol Dyffryn Ogwen' ym mis Mawrth. Bwriad y grŵp yw ceisio cydweithredu â'n gilydd i ddod â balchder yn ôl i'r ardal a'i phobl.

Bydd cydweithrediad o'r fath yn dwyn ffrwyth ac yn gwneud gwahaniaeth i drigolion y Dyffryn. Mae croeso i gynrychiolwyr o holl fudiadau'r Dyffryn ymuno â ni, yn gymdeithasau, elusenau, busnesau lleol ac wrth gwrs unigolion sy'n poeni am y sefyllfa.

Cadarnhaodd yr Heddlu gefnogaeth i'r cynllun ac maent yn barod i helpu unrhyw dro. Rhif ffôn yr Heddlu yw 111.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn darllen mwy am y grŵp, ein gwefan ar Facebook yw 'grŵp Cymunedol Dyffryn Ogwen.' Bydd croeso i chwi ymuno â ni yn ein cyfarfodydd

## Diolch

Mae Jack ac Eirwen, Glanffrydlas am ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniwyd ganddynt wrth iddynt ddathlu eu priodas ddiemwnt. Dywedodd Jack fod y ddau ohonynt wedi eu rhyfeddu at yr holl garedigrwydd a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod, gan drigolion yr ardal a thu hwnt.

## Priodas Berl

Llongyfarchiadau i Dei a June Jones, Rhos Lan, Ffordd Bangor ar achlysur dathlu eu priodas berl ar 21 Ebrill. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu i gyd.

## Damwain

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan at Llinos Huws (14 Pant gynt) yn yr ysbyty yng Nghaerdydd yn dilyn damwain wrth feicio o'i gwaith.

## Ysbyty

Cofion a gwellhad buan i gyfeillion a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar:-  
Mr Llyfnwy Lloyd, Glanogwen  
Mr Les Jones, Glanogwen  
Mr Tudor Roberts, gynt o Abercaseg.

## Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar

Mr a Mrs Clifford Smith a'r teulu, Adwy'r Nant;

Mrs Muriel Williams a'r teulu, Garneddwen; (colli nai yn Llanfairfechan, sef Mr Vernon Williams, yn 49 oed, ar 13 Mawrth.

Susan a Colin Williams a'r teulu, Adwy'r Nant;

Andrew a Helen Speddy a'r teulu, Pant Glas; (colli mam a nain ddydd Sul, 30 Mawrth, sef y ddiweddar Mrs Phyllis Speddy).

Mr a Mrs Derek Griffith a'r teulu, Abercaseg (colli chwaer).

## Marwolaeth

Ar 10 Mawrth yng Nghartref Nyrsio Cerrig yr Afon, y Felinheli, bu farw Mrs Ethel Gertrude Williams, Ystâd Coetmor yn 93 oed. Priod y diweddar Mr S.G. Williams, mam a mam-yng-nghyfraith Julie a Ron, Nigel a Betsea; nain Marc, Siân a Catrin, hen nain Rhiannon, Siwan, Sam, Cian, Ffion, Caleb, Ned a Medi. Cynhaliwyd ei hangladd fore Gwener, 14 Mawrth, gyda'r gwasanaeth ar lan y bedd ym mynwent Coetmor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Yn ei gartref, 3 Glanrafon, ar 14 Mawrth bu farw Mr Dennis David Williams yn 75 oed. Tad caredig Mandie, Dennis â Hayley a thaid Jamie, Tara, Ory a Kei. Cynhaliwyd gwasanaeth dydd ei angladd ddydd Iau 27 Mawrth yn amlogfa Bangor. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

## Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Cynhaliwyd dwy ymgyrch ym Methesda yn ddiweddar i godi arian tuag at waith y Cyfeillion.

Ddydd Sadwrn, 8 Mawrth, ym Marchnad Ogwen gwnaeth stonddin Tombola Jean, Margaret, Kath a Ceinwen elw o £112.00. Diolch i bwyllgor y farchnad am roddi bwrdd.

Ddydd Sadwrn, 15 Mawrth, yng Nghaffi Coed y Brenin cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn, ac mae'r pwyllgor yn dymuno diolch i Caren a Chaffi Coed y Brenin ac i drigolion y Dyffryn am eu cefnogaeth. Gwnaethpwyd elw o £450.00.

Diolch i gyfeillion am eu rhoddion caredig tuag at y bore coffi a diolch i Branwen am ei chymorth parod.

## Diolch

Dymuna Sheila, Clare, Dylan a theulu'r diweddar Hubert Williams ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch yn arbennig i'r Parchedig Hugh John Hughes, Porthaethwy am y gwasanaeth, i Mrs Menai Williams yr organyddes, i swyddogion Capel Jerusalem, i Ann a Glyn y Bwl, ac i Mr Gareth Williams am yr holl drefniadau. Aeth y rhoddion o £1000 a gasglwyd at Hosbis yn y Cartref, nyrsys lleol ac Ambiwylans Awyr Cymru. Diolch yn fawr iawn!

## Clwb Gwawr Genod Pesda

Dechreuwyd y gwanwyn ar nos Iau 13 Mawrth efo gweithdy nefolaidd i ferched, sef dysgu sut i wneud gemwaith! Daeth criw o 21 i Glwb Rygbi Bethesda i fwynhau cyflwyniad gan Gaynor o Gwmni "Tlws" yn Abergele.

Cafwyd nawdd gan Mantell Gwynedd trwy eu cynllun Cymraeg 'Efo'n Gilydd' i ariannu'r noson. Cynllun yw hwn i annog mwy o ddysgwyr i ymuno gyda chymdeithasau a chlybiau prif ffrwd Cymraeg, a'u cynorthwyo i groesi'r bont honno at ruglder.

Wrth reswm, roedd y noson yn boblogaidd iawn, efo pawb eisiau creu o leiaf un freichled i fynd adref efo nhw. Daeth Gaynor â llond car o wahanol addurniadau; gleiniau o bob siâp a lliw. Roedd gormod o ddewis i rai, ac yn y diwedd penderfynodd sawl un greu mwy nac un freichled!

Gwych hefyd oedd cael y cyfle i holi gwraig fusnes lleol am ei hysgogiad i ddechrau'r cwmni 10 mlynedd yn ôl.

I ddarllen mwy am Tlws, neu i archebu gemwaith ar-lein, ewch i [www.tlws.co.uk](http://www.tlws.co.uk) neu ffoniwch 01745 827900. Gallwch hefyd alw i mewn i'r siop yn Abergele.

Mae croeso cynnes i ferched ymuno efo ni trwy gydol y flwyddyn am noson gymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Ewch i [www.clybiaugwawr.com](http://www.clybiaugwawr.com) am holl fanylion ein digwyddiadau. Dewch a Mwynhewch!



## Eglwys Crist, Glanogwen

### Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

#### Sul Cyntaf pob mis

Cymun Bendigaid – 8.00am  
Boreol Weddi – 11.00am

#### Ail a thrydydd Sul pob mis -

Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am

#### Pedwerydd Sul pob mis -

Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am

#### Pumed Sul -

Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandygái a Phentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)

#### Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid

**Arch Noa** - Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae yn cyfarfod yn Ysgol Abercaseg pob bore Llun am 9.15am.

#### Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod.

Dymunwn Basg Hapus a Bendithiol i bawb

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio y daw adferiad buan i chwi i gyd.

## Merched y Wawr, Cangen Bethesda

### Cyfarfod Mis Mawrth

Cynhaliwyd cyfarfod ein cangen nos Iau, y 27ain dan lywyddiaeth y Fns Elena Owen gyda'r Fns. Gwenno Evans yn cyfeilio.

### Anerchiad y Llywydd.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Eleanor Morris ac Eurwen Morris, y ddwy wedi bod dan anwyd trwm. I'r gwrthwyneb, pleser oedd gweld fod Doris Shaw, Glenys Clark ac Eleanor Holland wedi gwella. Da hefyd oedd gweld fod Rhiannon yn bresennol er ei bod wedi cael anhwylder yn ddiweddar. Ymddiheurodd Pat hefyd - doedd hithau ddim yn gallu bod yn bresennol.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Margaret Jones sydd wedi colli ei brawd yng nghyfraith, a Bessie Buckley sydd wedi colli ei chwaer yng nghyfraith.

### Y Pwyllgor Anabl

Gwnaed apêl am gefnogaeth i'r distawrwydd noddedig tuag at yr elusen 'Loches i Ferched'. Maent eisoes wedi casglu swm sylweddol, ond bydd y cyfle i noddii yn parhau am beth amser eto.

### Siaradwr gwadd

Yna, croesawyd y wraig wadd, sef y Fns Buddug Jones. Mae Buddug yn ddall ac fe ddaeth a'i chi tywys, Freya gyda hi. Ci tywys o liw melyn yw Freya, ac mae'n hoffus dros ben ac mor werthfawr iddi. Bu dwy ffrind i Buddug yn garedig iawn yn dod a hi atom a'i chludo gartref. Dangoswyd lluniau o wahanol achlysuron a phrofiadau gyda'r ci tywys. Rhoddwyd cyfle i brynu oddi ar ei stondin, oedd yn gwerthu calendrau deillion, teganau siâp cŵn, pensiliau, a.y.b. ac roedd cyfle i ennill gwobr a roddwyd ganddynt.

### Y Wobr Lwcus

Enillodd Rita Evans degan siâp ei oddi ar y stondin ac enillodd Dilys Jones wobwr roddedig gan Rita Bullock.

### Diolchiadau'r Llywydd

Diolchwyd yn gynnes iawn i'r wraig wadd am noson ddiddorol a phawb yn edmygu ei dewder. Mae'n parhau i weithio'n ddiplino gyda'r Pwyllgor Anabl, er gwaethaf ei hanabledd ei hun. Diolchwyd yn ogystal i Rita, Dilys ac Eirlys Cefni am baratoi'r baned.

## Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar ddechrau ein cyfarfod ar 3 Ebrill, estynnodd ein llywydd, Margaret Williams, groeso cynnes i bawb ar ein noson gyntaf wedi troi'r clociau. (Gobeithio bod pawb wedi cofio ynte!!)

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth rai o'r aelodau oherwydd amrywiol amgylchiadau.

Anfonwyd ein cofion at Gwen Davies, wedi iddi orfod treulio cyfnod pellach yn yr ysbyty ar ôl ei llawdriniaeth. Cydymdeimlwyd â Violet Williams a golodd ei chyfnith yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Glenys Wyn Jones ar ddathlu ei phen-blwydd gan obeithio ei bod wedi cael diwrnod da.

Yr oedd Margaret hefyd yn cofio at lawer o aelodau'r Sefydliad nad ydynt yn gallu mynychu'r cyfarfodydd erbyn hyn oherwydd oedran a salwch. Rydym yn meddwl amdanoch i gyd!

Darllenwyd y cofnodion gan Jean, ac aeth Margaret ymlaen i ddarllen cynnwys y llythyr misol.

Mae rhai aelodau am fynd i Landudno i chwarae bowlïo deg. Cawn yr hanes y tro nesaf!

Gwen Jones o Lanrug oedd ein gwraig wadd, sef merch Dilys Baylis o Lanberis, oedd yn enwog am ysgrifennu barddoniaeth a chaneuon. Byddai hefyd yn ysgrifennu i'r Daily Post bron yn ddyddiol.

Darllenodd Gwen ddyddiaduron ei mam pan oedd yn ferch ifanc, 17 mlwydd oed, ac wedi mynd i weithio fel nyrs yng Nghartref Barnados yn Llundain. Yn anffodus fe gafodd nam ar ei llygaid a bu raid iddi ddod adref i Lanberis lle bu'n gweithio yn siop ei rhieni am 30 mlynedd. Hanes diddorol iawn am berson gweithgar dros ben a gafodd fywyd llawn! Bu farw 3 mis cyn ei phen-blwydd yn 100 mlwydd oed! Os bydd unrhyw fudiad angen siaradwraig mae Gwen Jones yn werth ei chael i gadw noson!

Diolchwyd i Gwen gan Gwyneth Morris, ac i'r merched am y baned. Gwyneth gafodd y wobwr lwcus a oedd yn rhodd gan Gwenda Bowen.

## Yr Eglwys Unedig

### Mis Mawrth yn Yr Eglwys Unedig.

'Os ym Mawrth y tyf y ddôl,  
Gwelir llawnder ar ei ôl.'

Os caiff hyn ei wireddu, gallwn edrych ymlaen at y llawnder hwnnw.

Cofiw'n am yr aelodau a'n cyfeillion sydd yn wael, wedi bod mewn Ysbyty, eraill mewn cartref preswyl, a rhai yn eu cartrefi eu hunain yn unig a llesg. Anfonwn ein dymuniadau gorau atynt i gyd a boed bendith arnynt.

Ar y 4ydd, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dan arweiniad Alwena gydag Olwen ac Elena yn cynorthwyo i gyfeiliant Eileen. Thema'r noson oedd 'Dewi Sant'. Dysgasom lawer a chawsom noson wych.

Ar y 7fed, cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang Chwirodydd y Byd yn y festri am 2.00 o'r gloch. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan Chwirodydd Cristnogol yr Aifft oddi tan y testun 'Ffrydiau yn yr Anialwch.' Diolchwn i Ceri am drefnu popeth ar ein rhan ac am addurno'r festri mewn dull Eifftaidd deniadol a lliwgar. Diolch hefyd i bawb a gymerodd ran. Cawsom fendith o fynychu'r gwasanaeth. Gwnaethpwyd casgliad o £56.

Ar y 13eg, cynhaliwyd 'Y Gymdeithas,' dan lywyddiaeth Rhiannon gyda Gwenda Roberts yn trafod ac arddangos ei 'Gwaith Llaw a Chwiltio'. Rhoddwyd diolchiadau haeddiannol iddi gan Jennie ac i'r merched a fu'n darparu'r lluniaueth.

**Clwb Nos Fawrth:** Dan arweiniad trylwyr Alwena a Lowri mae'r gweithgareddau yn mynd o nerth i nerth. Bu'r aelodau yn byw at £1 am 12 awr er mwyn cael syniad o ddiodeffaint rhai mewn angen yn y 3ydd byd. Wedi eu noddii, casglwyd £400 tuag at Cymorth Cristnogol. Mae paratodau gyda'r Ysgol Sul yn mynd rhagddynt hefyd ar gyfer Sul y Blodau a'r Pasg.

Llongyfarchiadau i Llion Wyn Williams sydd wedi ei benodi yn Brifathro Ysgol y Garnedd, Bangor. Mae Llion yn fab i Carys ac Arthur Williams, Y Garreg Wen, Tal y Cae.

Rydym yn falch hefyd o dderbyn aelod newydd atom, sef Sara Wyn Williams, 16, Ystad Coetmor.

#### Oedfaon:

Ebrill 20 Parch Harri Parri.  
Ebrill 27 Parch Geraint Hughes.  
Mai 04 Parch Emllyn Richards.  
Mai 11 Parch Ddr. Elwyn Richards.  
Mai 18 Bnr Alan W.Roberts.

**Adnod y mis.** 'A phan ddaeth yn hanner dydd, bu tywyllwch dros yr holl wlad hyd dri o'r gloch y prynhawn.' Marc 15.33

## CAPEL BETHANIA

### Mis Ebrill

20 Sul y Pasg - dim oedfa

### Mis Mai

04 Mr Michael Davies  
18 Cymanfa Ysgolion - dim oedfa

### Dechreuir am 5.30

**Croeso Cynnes i Bawb**

## Gorffwysfan

### Pwyllgor

Cynhaliwyd cyfarfod o'r pwyllgor fore Llun, 10 Mawrth, gyda Mr Elfed Bullock yn gadeirydd.

Yn bresennol roedd: Dennis Dart, Joe Evans, Rhiannon Efans, Dafydd Pritchard, Vernon Owen, Joe Hughes, O.J. Evans, Gilbert Bowen, Elfed Bullock ac Edric Jones.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Mrs Ann Fôn Williams.

Cafwyd gair o groeso gan y Cadeirydd a dymunodd wellhad buan a chofion Gorffwysfan at aelodau a oedd wedi bod yn sâl yn ddiweddar, sef Mr Eric Jones (ein Cadeirydd), Mrs Alice Jones, Mrs Margaret Pritchard, Mrs Rene Parry, Mr Jim Amos, Mrs Ettie Evans, Mrs Jean Griffiths, Mrs Margaret Roberts, Mrs Christine Jones a Mrs Gwenda Bowen.

Darllenwyd cofnodion pwyllgor bore Llun 23 Medi 2013 a chafwyd yn gywir.

### Adroddiad y Trysorydd

Cafwyd adroddiad boddhaol gan y trysorydd a diolchodd y cadeirydd iddo am ei waith.

Diolchodd y cadeirydd i bawb am eu gwaith yn ystod 2013.

### Materion i'w trafod

#### Gwibdeithiau 2014

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd ar ddyddiadau a chyrchfannau pedair gwibdaith, pob un ar ddydd Mercher:

**07 Mai** - Gerddi Gordale a Phenbedw

**02 Gorffennaf** - Southport

**10 Medi** - Y Bala, Y Berwyn a Chroesoswallt

**29 Hydref** - Yr Wyddgrug a Tweedmill

**17 Rhagfyr** - Dathlu'r Nadolig

Penderfynwyd gofyn i gwmmi Clynnog a Threfor am bris bws i bob gwibdaith.

Diolchwyd i Mrs Gwenda Bowen am restr dyddiadau Clwb y Gerlan.

#### Bore Coffi 2014

Penderfynwyd cynnal bore coffi - y dyddiad a'r lleoliad i'w trefnu.

#### Ethol Swyddogion

Penderfynwyd, wedi trafodaeth, i'r swyddogion aros yn eu swyddi am eleni ac i Elfed fod yn gadeirydd yn absenoldeb Mr Eric Jones.



## Rachub a Llanllechid

**Dilwyn Pritchard,**  
Llais Afon, 2 Bron Arfon,  
Rachub LL57 3LW  
☎ 601880

### Canolfan Rachub

Yn dilyn ymgyrch gan Bwyllgor y Ganolfan i sicrhau dyfodol y Neuadd fel Canolfan Gymdeithasol, cafwyd ymateb cadarnhaol oddi wrth Gyngor Cymuned Bethesda, sydd "wedi penderfynu derbyn trosglwyddiad y Neuadd oddi wrth y Cyngor Sir a hefyd i symud ymlaen i drwsio'r llawr."

Mae hyn yn newydd da ac yn deillio o ymateb y cyhoedd i'r llythyr a anfonwyd i bob cartref yn Rachub y mis diwethaf.

Dywedodd y Cynghorydd Godfrey Northam ar ran y Pwyllgor, "Yn dilyn ymdrech galed ac ymateb cadarnhaol o du'r trigolion, rwy'n falch y daethpwyd i ganlyniad boddhaol ac y gall y Pwyllgor symud ymlaen gyda chynlluniau at y dyfodol." Ni wyddai pryd y byddai'r gwaith yn cychwyn ond mae'n gobeithio y gwelir datblygiad erbyn diwedd yr haf.

### Clwb yr Henoed, Rachub

Cyfarfu'r Clwb uchod ar bnawn rhyfeddol o braf ar 12 Mawrth. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd, Mrs Margaret Owen.

Cyflwynwyd y siaradwraig, Mrs Gwenda Davies o Dregarth. Cawsom bnawn hynod o ddiddorol yn ei chwmi. Siaradodd am ei magwraeth a phethau oedd yn bwysig iddi hi.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Gwenda gan Mrs Margaret Rees Williams. Yn dilyn y sgwrs cafwyd te a bara brith blasus wedi ei goginio gan Mrs Margaret Rees Williams.

Rhoddwyd y raffl gan Mrs Margaret Owen ac fe'i henillwyd gan Mrs Arfona Edwards.

Llongyfarchwyd Mrs Eurwen Williams a'i gŵr ar ddatlu eu priodas ddiemwnt.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9 Ebrill.

## Capel Bethel

### Trefn Gwasanaethau

**Ebrill**  
27 Mr Bob Morris

**Mai**  
04 Parchg Dafydd Hughes  
11 Y Gweinidog  
18 Parchg W. R. Williams  
25 Y Canon Idris Tomos

**Oedfaon am 2.00 o'r gloch.**  
Croeso cynnes i bawb.

### Cydymdeimlad

Anfonodd y newyddion am farwolaeth un o gyn-drigolion y pentref fraw mawr drwy'r pentref a thu hwnt. Chwe-deg-saith mlwydd oedd Gwyn Parry, mab i'r diweddar Stanley a Gracie Parry, Stryd Fawr, pan fu farw mor ddisymwth yn ei gartref yng Nghaernarfon ar Fawrth 20. Mae'n chwith meddwl na chawn ei weld, ei glywed na phrofi'r 'wên na phyla amser' byth eto. Honnai cyfaill iddo, Rhys Mwyn, mewn erthygl yn yr Herald Gymraeg fod gordefnydd y cael ei wneud o'r gair 'cymeriad' wrth sôn am bobl, ond roedd yn gweddu iddo ef, "dyna oedd Gwyn Parry - cymeriad lliwgar, ond hynod annwyl yr un pryd." Dwyn i gof mae Rhys Mwyn eu cyfnod fel stiwdants yn dysgu'r grefft o fod yn dywyswr i ymwelwyr ar hyd a lled y gogledd. Arferant arwain ymwelwyr o bedwar ban byd i lefydd fel Castell Caernarfon, Castell y Penrhyn a Gerddi Bodnant, ac "roedd ei lais melfedaidd, Shakesperaidd yn gweddu'n ardderchog i'r swydd." Aeth ymlaen i nodi ei siom na fydd Gwyn hefo ni'r haf hwn, wrth i'r ymwelwyr gyrraedd - fydd Castell Caernarfon byth yr un fath heb Gwyn na'r ymbarél y Ddraig Goch yr arferai ei chario.

Ymunodd Gwyn gyda Chwmi Theatr Cymru pan oedd y mudiad yn ei fabandod, gan ymddangos ar lwyfannau ar hyd a lled Cymru. Daeth yn wyneb adnabyddus ar sgrin y teledu mewn cyfresi fel Y Stafell Ddirgel, Pobol y Cwm, A470 a Porth Penwaig, a chofiwn ef fel Bob, rheolwr y garej ym Mhengelli. Ymysg teyrngedau iddo gan ei gyd-actorion disgrifiwyd ef fel 'cyfaill triw,' 'personoliaeth gynnes,' 'yn gwenu bob amser' ac fel Cymro balch a thwymgalon. Roedd yr Amlogsgfa ym Mangor yn llawn ar gyfer ei angladd, prawf unwaith eto o boblogrwydd Gwyn.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Elwyn a Rhiannon, Branwen, Robin a'r teulu i gyd un eu profedigaeth.

## Carmel, Llanllechid

### Trefn Gwasanaethau

**Ebrill**  
20 Y Canon Idris Thomas 5.00  
27 Parch. Ddr D. W. William 2.00

**Mai**  
04 Yr Athro Deri Thomas 5.00  
11 Oedfa Cymorth Cristnogol (Jerusalem) 5.00  
18 Cymantfa Ysgolion Pendref, Bangor 10.30  
Amana Mynydd Llandygai 5.30

**Ysgol Sul:** 10.30 y bore  
**Dwylo Pysur:** Nos Wener 6.30 pm

**Croeso cynnes i bawb**

## Carmel Llanllechid

Yn ystod mis Mawrth daeth Mr Bryan Griffith i wneud crochenwaith gyda'r bobl ifanc. Cawsom noson ddifyr a gwelwn lun Beca a Rhiannon gyda'u modelau o dai lliwgar gorffenedig.



Ar Sul olaf mis Mawrth bu aelodau'r Clwb yn cymryd rhan agoriadol mewn gwasanaeth o ganu mawl. Bu'r bobl ifanc hefyd yn cyflwyno eitemau cerddorol yn y gwasanaeth. Canwyd dwy ddeuawd, un gan Manon a Rhiannon a'r llall gan Elen a Beca. Diolch yn fawr iddynt i gyd am gymryd rhan a chanu mor swynol. Gwerthfawrogwyd eu canu hefyd wrth iddynt ymuno yn y cyfarfod canu.



Aelodau'r clwb yn ymarfer at y cyfarfod canu

## Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Yng nghyfarfod diwethaf y clwb bu'r aelodau'n hel atgofion am ddyddiau eu hieuentid wrth ddwyn i gof nosweithiau cyngherddau Band of Hope yn yr ardal. Penllanw nosweithiau o ymarfer oedd y cyngerdd, ac roedd pob capel yn ei dro yn cynnal noson o adloniant ysgafn. Bu'n fodd i lawer dorri'r oer i fynd ar lwyfannau'r byd ac i eraill roedd y profiad yn un annifyr gan gau'r llen am byth ar eu dyddiau ar lwyfan. Roedd unfrydedd llwyr fod aelodau ym mhob capel yn rhoi oriau o waith i baratoi'r plant ar gyfer y cyngherddau yma. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fercher olaf mis Ebrill am 7.00 o'r gloch yn Festri Capel Carmel. Mae croeso i chi ymuno â ni pan fydd yr aelodau yn dwyn i gof atgofion am GARNIFALS a gynhaliwyd yn y pentref. Dewch chwithau gyda'ch atgofion.

## Nant Ffrancon

### Capel Nant y Benglog Trefn Gwasanaethau

Ebrill 27: Robert Thomas  
Mai 4: Dylan Rhys  
Mai 11: Dafydd Iwan  
Mai 18: Sheila Haf

**Croeso i bawb am 2 o'r gloch**

## Braichmelyn

**Rhiannon Efans,**  
Glanaber, Pant, Bethesda  
☎ 600689

### Dymuniadau Gorau

Dymuniadau gorau i Mr John Glyn Jones, Tandgadlas Isaf, am wellhad buan. Mae wedi cael clun newydd yn yr ysbyty. Gobeithio y gwelwn ni chi o gwmpas yn fuan, John.

### Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Beryl Orwig, Cilcavan a'r teulu oll yn eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl yn colli nai a chefnder i'r hogiau, sef Gwyn Parry.

Bydd colled fawr ar ôl Gwyn oedd bob amser a gwên i bawb.

Llais Mis Mai  
Y deunydd i'r  
golygydd,  
Dewi Morgan,  
erbyn dydd Mercher  
**30 Ebrill**  
os gwelwch yn dda.

# Y Gerlan

**Ann a Dafydd Fôn Williams,**  
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan  
☎ 601583

## Gartref o'r ysbyty

Rydym yn gyrru ein cofion at Keith Hughes, Ciltrefnus, sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Rydym yn falch o ddweud fod Keith bellach adref ac yn gwella. Pob dymuniad da, iti Keith

## Pen-blwydd hapus

Rydym yn gyrru ein dymuniadau gorau i Bethan Speddy, Stryd y Ffynnon, ar ddatlu ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr iti, Bethan a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

## Ysbyty

Rydym yn gyrru ein cofion at Rhian Jones, Ffordd Gerlan, sydd yn Ysbyty Gwynedd. Mae pawb yn cofio atat, Rhian, ac yn dymuno gwellhad buan iti.

## Dymuniadau gorau

Anfonwn bob dymuniad da i Dewi Owen, Rallt Isaf, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Rydym o falch o weld Dewi yn awr yn ei ôl adref ac yn gwella.


## Profedigaeth

Daeth y newyddion trist i'r ardal yn ddiweddar am farwolaeth un o gyn-drigolion y pentref, sef y ddiweddar Phyllis Speddy, a fu'n byw am flynyddoedd yn Stryd y Ffynnon. Un o ferched y Gerlan oedd Phyllis, wedi byw yn Nhy Slaters a Stryd y Ffynnon. Ers rhai blynyddoedd bellach roedd hi a'i gŵr, Bill, wedi symud i fyw i Borthaethwy. Rydym yn gyrru ein cofion a'n cydymdeimlad llwyrat at Bill a'r teulu yn eu profedigaeth fawr o golli gwraig, mam, a nain annwyl iawn.

## Gwella

Rydym yn falch o ddweud fod Geraint Morris, Stryd Morgan, yn gwella yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae pawb yn cofio atat, ac yn dymuno gwellhad llwyr a buan iti, Geraint.

## Dathlu



Llongyfarchiadau i Len Williams (Len Dŵr), Hen Bost Gerlan, ar ddatlu ei ben-blwydd yn 91 oed ar 22 Mawrth. Hefyd, gydag ymddiheuriad am fod yn hwyr, i Megan oedd yn 94 oed ar 28 Ionawr.

Dathlodd Len ei ben-blwydd efo'r teulu yng Nghaban Gerlan lle roedd 8 o wyrion ac wyresau a 14 o orwyrion ac wyresau.

# Llandygái

Ethel Davies, Pennard, Llandygái  
☎ 353886

## Cydymdeimlad

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Mrs Glenys Parry, 9 Bronllys, Gaerwen (gynt o 4 Pentre, Llandygái) ar 25 Mawrth yn Ysbyty Gwynedd Bangor. Rydym yn cydymdeimlo yn ddwys â'r teulu a'i ffrindiau oll yn eu profedigaeth.

Bu Glenys yn byw yn y pentref am flynyddoedd lawer ac yn flaenllaw yn holl weithgareddau Neuadd Talgai ac yn aelod o'r pwyllgor hefyd. Roedd yn dal i ymweld â ni yn y pentref a byddem yn cael sgwrs uwch paned o de ac yn dal i fyny gyda'r newyddion diweddaraf – byddwn yn colli ei chwmmi yn arw.

## Gwaeledd

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dr Pam Jones, Olwen Latham, Cassie Tyndall, Betty Williams, Dorothy Proudley Williams a phawb arall sy'n wael. Roeddem yn falch iawn o weld rhai ohonoch yn mynd am dro o gwmpas y pentref yn ystod y mis diwethaf.

## Bingo

Cafwyd noson o fingo eithaf hwyliog yn Neuadd Talgai nos Fawrth 18 Mawrth. Diolch i Pauline a Raymond am drefnu'r noson ac i bawb oedd yn bresennol. Roedd un gŵr bonheddig yn cael ei ben-blwydd arbennig yr wythnos honno ac fe gafodd barti hyfryd i ddatlu'r achlysur. Go dda Robin! Cafodd pawb amser gwych.

## Parti'r Pentref

Clywais fod Mr Robin Jones wedi cael pedwar parti pen-blwydd, ond ar ddydd Sadwrn 22 Mawrth y cafodd y parti mwyaf. Deugain o drigolion y pentref wedi dod i ddatlu gyda Robin. Joy Radcliffe gafodd y syniad ac yna aeth pawb ati i baratoi bywd ac yn y blaen. Roedd yn wledd ardderchog - llongyfarchiadau i chi i gyd a diolch o galon.

## Eglwys Sant Tegai

### Profedigaeth

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Mary Owen, 25 Llys Bedwyr, Bangor, yn dawel yng nghartref Cerrig yr Afon, y Felinheli ar 7 Mawrth yn 96 mlwydd oed. Roedd yn briod ffyddlon ac yn fam annwyl i Allen, Carol ac Elwyn. Cynhaliwyd ei hangladd cyhoeddus yn Eglwys Sant Tegai ar 17 Mawrth gyda'r parchedigion John Matthews a J Aelwyn Roberts yn gwasanaethu. Mr Martin Brown oedd yr organydd. Cydymdeimlwn ag Allen, Carol ac Elwyn a'r teulu oll yn eu colled drist.

### Damwain

Bu raid i Iwan Huw Harper, Fferm Tŷ Newydd, dreulio cyfnod yn Ysbyty Newcastle yn dilyn damwain i'w lygad pan ar brofiad gwaith yn Swydd Northumberland. Da iawn clywed dy fod yn gwella Iwan.

### Gwaeledd

Anfonwn ein dymuniadau gorau am lwyr wellhad i Mrs Liz Jones, 21 Pentre Llandygái, sydd heb fod yn teimlo'n rhy dda yn ddiweddar. Cafodd lawdriniaeth i'w llaw chwith yn Ysbyty Llandudno ar 25 Mawrth

ac mae'n gwisgo gwregys ar hyn o bryd. Mae pawb yn meddwl amdanoch, yn cofio'n annwyl atoch ac yn falch dros ben eich bod gartref ac wedi mentro i'r Eglwys ar Sul y Fam.

Dymunwn gael ein cofio hefyd at Jane Couch, Gwynne Edwards, Siân Evans, Jackie Williams, Keith a Linda Irons, Bethan Griffiths a phawb arall sy'n wael.

## Pen-blwyddi

Gobeithio i Rhian fwynhau ei phen-blwydd arbennig yn Llundain yn ystod wythnos olaf mis Mawrth. Bu Huw a Gwenan yn garedig iawn yn gwneud y trefniadau i gyd a rhoi amser gwych i'r teulu mae'n siŵr.

Llongyfarchiadau i Edmond a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn ystod wythnos gyntaf mis Mai. Gobeithio y cewch amser hapus ond peidiwch â gweledda'n ormodol.

## Diolch

Diolch i Miss Dorothy Hanks am drefnu stondin elusennol yng Nghanolfan Deiniol, Bangor ar ddydd Gwener, 28 Mawrth. Codwyd £65.55 tuag at Eglwys Sant Tegai. Diolch i Nerys a phawb arall fu ar y stondin yn ystod y dydd.

## Y Grawys a'r Pasg

Cawsom wasanaeth Dydd Mercher y Lluwyr yn Eglwys y Santes Fair, Tregarth ar 5 Mawrth am 7.00 yr hwyr. Y Parchedig John Matthews oedd yn gwasanaethu ac aelodau o'r tair eglwys yn cymryd rhan. Diolch am eich croeso.

Cynhaliwyd gwasanaeth Sul y Fam yn Eglwys Maes y Groes ar 30 Mawrth a daeth cynulleidfifa dda i'r Offeren. Y Parchedig John Matthews oedd yn gwasanaethu a Martin Lewis yn ei gynorthwyo. Geraint Gill oedd yr organydd ac roedd Catrin, Rhian, Rosemary, Brenda, Lynne Ceri a Scarlet yn cymryd rhan hefyd. Ar ôl y gwasanaeth cawsom luniaeth ysgafn gyda Muriel a Phyllis yn gweini arnom - diolch o galon ferched! Roedd y deisen briodas a gawsom yn flacus iawn, diolch i Rhian, Chris, Ceri a Rosemary.

Cynhelir gwasanaeth Cymun Sul y Pasg yn Eglwys Sant Tegai am 11.15 y bore. Croeso cynnes i bawb.

## Croeso'n ôl

Edrychwn ymlaen at groesawu dau aelod arall i Sant Tegai o fis Mai ymlaen. Mae Hefin a Brenda Jones (y Bryn gynt) yn symud o Rochdale i fyw yn Llandudno ddiweddd mis Ebrill ac yn bwriadu ymuno gyda ni unwaith eto.

Pasg hapus i chwi i gyd oddi wrth bawb yn Llandygái.

## Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

### Paned a Sgwrs

Caffi Fitzpatrick  
Bethesda  
11.00 – 12.00  
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

### Peint a Sgwrs

Douglas Arms Bethesda  
20.00 – 21.00  
Trydydd Nos Lun pob mis

# Talybont

**Neville Hughes,**  
14 Pant, Bethesda  
☎ 600853

## Diolch

Dymuna Bethan Griffiths, 62 Bro Emrys, ddiolch o waelod calon i ffrindiau, cymdogion a phawb o'r ardal am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar ac i bawb a ddaeth i ymweld â hi yn ei chartref.

## Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad at Mrs. Enid Hughes, 3 Lôn Ddŵr, yn ei phroffedigaeth o golli ei chwaer-yng-nghyfraith, Mrs. Doreen Hughes.

## Pen-blwydd Arbennig

Cyfarchion pen-blwydd a phob dymuniad da i Gwyneth Roberts a ddathlodd ben-blwydd arbennig ar 2 Ebrill.

## Capel Bethlehem Talybont

### Oedfaon y Sul

#### Ebrill

20 Parchg. Harri Parri, Caernarfon  
27 Parchg. Geraint Hughes, Pwllheli  
**Mai**

4 Parchg. Emlyn Richards, Cemaes

11 Parchg. Ddr Elwyn Richards,  
Caernarfon

18 CAU Sul Cymanfa'r Annibynwyr

**Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.**

#### Yr Ysgol Sul – Noson Goffi

Dymunwn ddiolch i bawb wnaeth ein Noson Goffi ar nos Fercher, 2 Ebrill, mor llwyddiannus. Diolch yn arbennig i'r plant ac i'w rhieni. Bydd yr elw o £300 yn mynd at Apêl Haiti.

#### Cymanfa Talybont

Ceir adroddiad am ein 40fed Cymanfa yn y rhifyn nesaf.

## Eglwys Maes y Groes, Talybont

### Gwaeledd

Rydym yn falch o glywed bod Andrea Hutchinson-Smith wedi cael mynd adref o'r ysbyty a'i bod yn gwella yn dda iawn (ond yn ceisio gwneud gormod, meddai'i mam, Cora!). Dymunwn yn dda iddi hi a'i theulu - ei gŵr, Dan, a'i mab bach, Woody.

Mae Bethan Griffiths, Brian Hughes a Sheila Owen yn gwella'n raddol hefyd. Cofion at y tri ohonoch, ac anfonwn ein dymuniadau gorau hefyd at ferch Sheila, Elaine Hodgkins, sydd wedi cael llawdriniaeth ddechrau'r mis yma.

Mae Mollie Jones, Bryn, hefyd wedi bod yn yr ysbyty, ond rydym yn falch o glywed ei bod hi gartref bellach. Cofion cynnes iddi hi.

Mae'n ddrwg gennym glywed bod Stephen Barker, mab John a Gen Barker, wedi cael ei daro yn wael wrth chwarae pêl droed ac yn gorfod cael llawdriniaeth. Dymunwn wellhad buan iddo.

### Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Megan Hughes (Llanllechid) a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed yng Nghartref Ceris Newydd ar yr 28ain o Fawrth.

### Symud

Mae Pat Morrell, Capcoch, wedi symud i gartref yn Frodsham, Swydd Gaer, er mwyn bod yn nes at ei theulu. Roedd yn braf iawn ei gweld yn ein plith unwaith eto yng ngwasanaeth bore Sul y Fam, a dymunwn yn dda iddi hi yn ei chartref newydd.

### Diolchiadau

Diolch i Dorothy Hanks am drefnu stondin elusennol ar ran yr eglwys yn Ysbyty Gwynedd.

## Noson Goffi Capel Bethlehem



Dyma lun o rhai o blant yr Ysgol Sul a fu'n paratoi eitemau o waith llaw i'w gwerthu yn y Noson Goffi. Diolch yn fawr iddyn nhw ac i rai eraill nad ydynt yn llun.

## Gwasanaethau'r Pasg

### Dydd Iau Cablyd Ebrill 17eg:

5.30 pm, Eglwys Maes y Groes

### Dydd Gwener y Groglith Ebrill 18fed:

**9.45 a.m.** Gorymdaith Dystiolaethu efo'r Groes o Eglwys St Tegai, Llandygái, trwy'r pentref, i lawr i Dal-y-bont ac ar hyd Ponce y Lôn i Eglwys Maes y Groes erbyn 1.00 a.m. Yna am hanner dydd gwasanaeth byr yn Eglwys y Santes Fair, Gelli.

**2.00 p.m.** Eglwys Maes y Groes - Gwasanaeth Gorsafoedd y Groes

### Bore Sul y Pasg Ebrill 20fed:

#### Gwasanaethau Offeren:

Eglwys y Santes Fair, Gelli: 9.00 a.m.

Eglwys Maes-y-Groes, Talybont: 10.15 a.m.

Eglwys St Tegai, Llandygái: 11.15 a.m.

### Mewn Ysbytai

Anfonwn ein cofion at Mrs. Rose Thomas, 16 Dolhelyg, yn Ysbyty Eryri, a hefyd at Mrs. Elisabeth Griffiths, 13 Dolhelyg, yn Ysbyty Gwynedd.

# Glasiñfryn Caerhun

**Marred Glynn Jones**  
2 Stryd Fawr, Glasiñfryn,  
Bangor LL57 4UP  
**01248 351067**  
Marred567@btinternet.com

## Clwb Cant Y Ganolfan Mawrth

£20 - 107 Rosemary Jones

£10 - 71 Mary V Williams

£5 - 29 - Barry Sanderson

£5 - 11 - Alwyn Williams

### Cyfarfod Blynyddol

Bydd Cyfarfod Blynyddol Canolfan Glasiñfryn yn cael ei gynnal nos Lun, 12 Mai, am 7.30yh. Croeso cynnes i bawb. Dilyni'r y Cyfarfod Blynyddol gan gyfarfod arferol o'r Pwyllgor Rheoli.

### Yn yr ysbyty

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at Mr John Doxsey, Bryn Difyr, Glasiñfryn, sydd wedi bod yn yr ysbyty ar ôl iddo syrthio yn ei gartref.

### Diolch

Dymuna Miss Margaret Griffith, Caerhun, ddiolch o galon i bawb am eu cymorth a'u dymuniadau da ar ôl iddi dorri ei braich yn ddiweddar. Mae'n gwella ac mae hi wedi gwerthfawrogi pob cymorth.

### Sefydliad y Merched

Llywydd y noson ar y 12fed o Fawrth oedd Mrs Mair Griffiths. Cyflwynodd a chroesawodd y gŵr gwadd, Mr James Griffiths, gan ddweud mai dyma'r tro cyntaf erioed iddi gyflwyno ei gŵr!

Dod atom i gynnal Noson Lawen i ddathlu Gŵyl Ddewi yr oedd Jim ac yr ydym bob amser yn falch o gael ei gwmpeni. Mae ganddo gymaint o wybodaeth gerddorol, storïau a ffeithiau i'w cynnig a gellwch sicrhau ei fod wedi paratoi'n drwyadl. Ni chawsom ein siomi. Bu'n sôn am gysylltiadau cerddorol ardal Bangor a Dyffryn Ogwen, a'r dalent canu a fu'n gysylltiedig â'r capeli ac eglwysi.

Syfrdanwyd ni fod côr pedwar llais bendigedig wedi bod rai

blynyddoedd yn ôl yn eglwys St Ann's a chawsom flas ar wrando ar dâp o'r côr yn canu. Ni allem gredu fod cymaint o ddirywiad wedi digwydd yn ein hardaloedd.

Buom yn gwrandao ar sawl tâp o gerddoriaeth hyfryd ac i ddiweddu, ein hanthem genedlaethol yn cael ei chanu yn yr Albert Hall. Gwefreiddio! Diolch, Jim, am dy gwmpeni difyr a'r hanesion diddorol.

Mwynhawyd gwledd o gawl a danteithion melys i ddilyn, wedi ei pharatoi gan aelodau'r Sefydliad. Diolchwyd i bawb gan Mrs Glenys Morgan - hithau yn rhyfeddu at wybodaeth Jim ac yn falch o'i groesawu i'n plith fel ffrind. Roedd yn noson gartrefol ac addysgol.



# Rhiwlas

**John Huw Evans,**  
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas  
☎ 352835

## Merched y Wawr Cangen Rhiwlas

Cyfarfu'r gangen ar Nos Fawrth, 11 Mawrth a Llywydd y noson oedd Annes Glynn. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Megan ac Agnes.

Trafodwyd y cyhoeddiadau: ethol Is-ysgrifennydd Cenedlaethol - cefnogi Ann Ellis.

Cafwyd manylion am daith Cwmni'r Arad Goch Yn anffodus y perfformiad agosaf yn y Rhyl. Darllenwyd llythyr gan Hywel Gwynfryn yn sôn am ei daith drwy Gymru i ddathlu hanner canrif o ddarlledu ac i ddiolch i gymaint o bobl ag y medr. Mae'n awyddus i ymweld â changhennau o Ferched y Wawr. Mae'n rhan o gynllun Awdur ar Daith ac fe fydd yn ymweld â Changen Bethesda ym Mis Medi ac rydym fel cangen wedi derbyn gwahoddiad i fynd yno. Derbyniwyd pecyn gwybodaeth hefyd am Nant Gwrtheyrn.

Ein gwraig wadd oedd Elinor Gwyn, sy'n gweithio i Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn llais cyfarwydd i wrandawyr Radio Cymru. Teitl ei sgwrs oedd "Ar dramp rownd Cymru", gan ddilyn Llwybr yr Arfordir a agorwyd yn swyddogol yn 2012.

Yn rhinwedd ei swydd fel pennaeth mynediad hamdden bu'n crwydro'r llwybr am chwe wythnos a dangosodd inni'r offer a'r dillad y bu'n eu cario yn ystod y daith; enghraifft wych o fod yn gynnwl wrth bacio a gwers i sawl un ohonom! Wrth gerdded hefyd roedd yn casglu arian i elusen Alzheimers.

Roedd wedi cyfyngu ei hun i £10 y dydd ac wedi penderfynu tynnu lluniau o bedwar pwynt y cwmpawd bob deng milltir, a dyma'r lluniau a ddangoswyd inni yn ystod y noson. Cawsom noson hynod o ddiddorol a chawsom argraffiadau o sawl lle oedd yn ddiethr inni. Diolchwyd yn swyddogol gan Iona, heb anghofio diolch i Richard am gynorthwyo fel technegydd.

Carys a Iona oedd yn gyfrifol am y baned a Gwen oedd enillydd y raffl. Ym Mis Ebrill rydym yn disgwyl Alwyn Evans, gynt o Riwlas i ddod atom i roi sgwrs am brosiect Gweilch Dyfi.

## Clwb Rhiwen

Ar Fawrth y pumed cawsom gyfarfod i ddathlu ein Nawddsant a chafwyd sgwrs fer am fywyd a gwaith Dewi. Roedd nifer yn absennol oherwydd gwaeledd ac anfonwyd ein cofion atynt. Braff oedd gweld Beryl Griffiths yn bresennol unwaith eto. Dilys ac Eirlys oedd yn gyfrifol am y lluniaeth a chawsom deisennau cri a hefyd teisen gan Gareth, y cyfan yn hynod o flasus.

Ar Fawrth 19 roeddem i fod yn gwledda yn ffermdy Tŷ Mawr ond roedd yn rhaid gohirio ac felly cyfarfu'r aelodau yn y Neuadd fel arfer. Frances a Dilys oedd yn gyfrifol am y baned.

## Gwellhad

Y mae nifer o'r pentref wedi bod yn cwyno'n ddiweddar. Braff yw clywed fod Mrs Irene Jones, 12 Bron y Waun, yn gwella ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty.

## Yn yr Ysbyty

Mae Mrs Mai Williams, 16 Bro Rhiwen yn parhau yn Ysbyty Gwynedd ac yno hefyd y mae Mr John Huw Evans. Rydym yn anfon ein cofion a'n dymuniadau gorau atynt.

# Mynydd Llandygái

**Theta Owen.**  
Gwêl y Môr,  
Mynydd Llandygái.  
☎ 600744

## Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Iola Wyn Owen sydd wedi colli ei nain, sef Mrs Idwen Owen, Penrhiw, yn ddiweddar. Derbyniwch ein cydymdeimlad fel teulu.

## Clwb y Mynydd

Cafwyd prynhawn difyr yn Fron Goch, Caernarfon, a the prynhawn ardderchog. Wedi tipyn o siopa ar gyfer yr ardd roedd pawb yn hapus iawn. Diolch i Derfel Owens am ein cludo.

## Gwaeledd

Mae llawer sydd ddim yn dda yn y pentre. Cofion atoch! Bu Mrs Gwenda Evans yn Ysbyty Abergele am lawdriniaeth ar ei llygaid. Gobeithio eich bod yn gwella, Gwenda!

## Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

**Ebrill 18** Dydd Gwener y Grogolith (gweler yr hysbysfwrdd am fwy o wybodaeth)  
**Ebrill 20** 9.45 Sul y Pasg - Cymun Bendigaidd  
**Ebrill 27** 9.45 Boreol Weddi  
**Mai 4** 9.45 Gwasanaeth Teulu  
**Mai 11** 9.45 Cymun Bendigaidd  
**Mai 18** 9.45 Cymun Bendigaidd

Estynnwn groeso i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau dros Wyl y Pasg. Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun cartref dros Wyl y Pasg cysylltwch ag un o'r wardeiniaid: Mr Peter Price (601199) neu Mrs. Janet Williams (600434).

Ein dymuniadau gorau i bawb sy'n sâl ar hyn o bryd, anfonwn ein cofion cywiraf atoch

# Tregarth

**Gwenda Davies,**  
Cae Glas,  
8 Tal y Cae, Tregarth  
☎ 601062

**Olwen Hills (Anti Olwen),**  
4 Bro Syr Ifor,  
Tregarth  
☎ 600192

## Adref o'r ysbyty

Braff yw clywed fod Myfanwy Morris, Bryn Awelon, Dob, gynt o Bant yr Ardd, adref wedi iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl. Brysiwch wella Myfanwy a chofiwch fwynhau tendans gan y plant a'r wyrion.

## Cartref Newydd

Mae Bethan, Dylan a'u merch fach Nel Glyn wedi symud i'w cartref newydd, sef 17 Ffordd Tanrhiw, o Danysgrafell. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yno.

## Dyweddio

Llongyfarchiadau i Siôn Glyn, Gerlan, mab Glyn a Gwenda Davies, Tregarth, ar achlysur ei ddyweddiad gydag Elinor Haf, merch Brian ac Elaine Churchill, Abergele. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

## Aelod o Fand Jazz Ysgol Tryfan, Bangor

Yn Nhreorci, yn y Rhondda, ddydd Sul, 13 Ebrill, bydd Band Jazz Ysgol Tryfan, Bangor yn cystadlu yn erbyn un-ar-ddeg band arall o wahanol rannau o Gymru mewn cystadleuaeth arbennig iawn i ddod o hyd i'r Band gorau yng Nghymru. Arweinydd y Band yw Owain Arwel Davies, Bethesda, ac un o'r aelodau yw Tomos Morris Jones, Lliwedd, Tal y Cae, Tregarth. Pob hwyl hogia a genod y Band.

## Mewn Ysbyty

Mae Adrian Stokes, Ffordd Tanrhiw wedi bod am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Mawr obeithiwn ei fod yn gwella erbyn hyn.

## Profedigaeth

Daeth y newyddion trist am farwolaeth un o hogia Tregarth, sef David Francis Jones yn ei gartref yn Crawley Down ac yntau'n 90 mlwydd oed. Bu farw ei briod Joan Eileen Jones 37 mlynedd yn ôl a dychwelodd i Dregarth lle bu'n Gynghorydd Sir ac yn ddiweddarach priododd â'r ddiweddar Margaret Nesta Jones. Gedy ei blant Marian, William, John, Anne, Stephen a'i lysfab Raymond, sy'n byw yn Ffordd Tanrhiw, Tregarth. Cydymdeimlwn gydag Oscar ei frawd a'r holl deulu yn eu profedigaeth. Cynhaliwyd ei angladd yn Crawley Down, ddydd Iau, 27 Mawrth.

Ar 22 Mawrth yn Ysbyty Gwynedd, yn annisgwyl, bu farw Margaret Olive Roberts, 7 Maes Ogwen,

Tregarth, yn 77 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at ei phriod Trevor, ei phlant Hefina a Dewi, ei hwyron Nicola, Lee, Steven, Natalie a Barry, a'i gorwyrion Ryan, Abi, Hari, Samira, Sienna. Hefyd i'w brawd Fred a'r diweddar Wynne a'r holl deulu. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Shiloh, bnawn Gwener, 28 Mawrth.

## Gair o ddiolch

Hoffai Sioned O'Connor, Godre'r Parc, Sling, ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at ei hymchwil Gradd MA. Hefyd diolch i bawb am yr holl gyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd.

## Croeso Adra

Croeso adra i'r gantores Helen Wyn, Bro Derfel, wedi cyfnod o dri mis yn canu a mwynhau yn Seland Newydd. Yn ystod y cyfnod yr oedd i ffwrdd dathlodd Helen Wyn ben-blwydd go arbennig! Gobeithio i ti gael amser wrth dy fodd a dymuniadau hwyr ar dy ben-blwydd gan bawb o Ddyffryn Ogwen.

## Merched y Wawr Cangen Tregarth

Nos Lun, 7 Ebrill bydd y gangen yn paratoi noson o Frethyn Cartref gan fod Michelle Roberts a oedd i fod i gyflwyno ei chynnyrch 'Popeth Neis' yn methu bod hefo ni oherwydd salwch. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati yn ei chartref newydd yn y Gefnfan, Mynydd Llandygái gan obeithio y daw i'r gangen eto'n fuan.

Ar 12 Mai bydd noson o arddio yng nghwmni'r garddwr enwog Medwyn Williams. Croeso cynnes iawn i bawb i Festri Capel Shiloh am 7.30.

## Eglwys y Santes Fair

### Gwasanaethau

**Ebrill**  
27 Cymun Bendigaidd

**Mai**  
04 Gwasanaeth Teulu  
11 Cymun Bendigaidd  
18 Boreol Weddi

Bydd y gwasanaethau yn dechrau am 9.45 y bore.

### Clwb Cant

#### Mis Mawrth

£15 Rhif 6  
David Jones  
£10 Rhif 168  
Viv Williams  
£5 Rhif 54  
Rosemary Williams

**Parhad dros y dudalen:**

**Eglwys y Santes Fair (parhad)****Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn gyda theulu'r diweddar David Francis Jones a fu'n aelod ffyddlon a gweithgar o'r eglwys dros y blynyddoedd. Cynhaliwyd ei angladd yn Crawley, gyda gwasanaeth coffa yn Eglwys y Gelli.

**Mwynhau**

Cawsom De Crempog llwyddiannus iawn ar 4 Mawrth – pawb yn mwynhau eu crempogau. Diolch yn fawr i bawb wnaeth gefnogi.

**Priodas**

Yn Eglwys y Santes Fair, Gelli, Tregarth, Dydd Gwener, 14 Mawrth, cynhaliwyd priodas Rhian Wynne Williams, Bro Syr Ifor a Chris Wayne Owen, gyda'r Tad John Matthews yng ngofal y gwasanaeth. Ac roedd Ceri yn forwyn briodas hardd iawn. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Capel Shiloh****Gwasanaethau  
Yr Ysgol Sul am 10.30  
Oedfa am 5.00**

**Ebrill 13** 10.30 Oedfa Deulu Sul y Blodau

**Ebrill 17** 6.00 Oedfa Dydd Iau Cablyd dan ofal y Parch Gwynfor Williams

**Ebrill 20** Y Parchedig Geraint Roberts, Porthaethwy

**Ebrill 27** Y Parchedig Jennie Hurd, Cadeirydd Talaith Cymru o'r Eglwys Fethodistaidd

**Mai 4** Y Parchedig Gwynfor Williams

**Mai 11** 10.30 Oedfa Deulu Cymorth Cristnogol yn cael ei harwain gan Catherine Daniel, pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru (gynt o Fangor)

**Profedigaeth**

Cydymdeimlwn gyda dwy o aelodau Capel Shiloh, sef Mrs Eurwen Pennant Lewis, Llanfairpwll a Mrs Ffion Rowlinson yn eu profedigaeth

o golli brawd-yng-nghyfraith ac ewythr, sef y diweddar Barchedig Iwan Pennant Lewis, Cegidfa, Powys.

**Yr Ysgol Sul**

Mae aelodau'r Ysgol Sul yn brysur iawn ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer dau wasanaeth arbennig sef, ar 13 Ebrill, Oedfa Deulu Sul y Blodau ac, ar 11 Mai, cymryd rhan yn Oedfa Sul Cymorth Cristnogol.

Rydym yn ffodus iawn o gael cwmni Catherine Daniel, sef Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru yn yr oedfa hon. Mae Catherine yn enedigol o Fangor a bu'n ddisgybl yn Ysgol y Garnedd ac yn Ysgol Uwchradd Tryfan cyn mynd ymlaen i astudio yng Nghaergrawnt.

Croeso cynnes iawn i bawb o'r ardal i'r gwasanaeth arbennig yma ar gychwyn Wythnos Cymorth Cristnogol.

Byddai'n hyfryd gweld cynulleidfa deilwng i groesawu Catherine Daniel.

**TREGARTH FY MHLENTYNDOD  
(Rhan 2)**

O fewn ergyd carreg i Siop Alff ar yr un ochr i'r ffordd roedd Siop esgidiau y diweddar Moses Hughes. Dyn bychan eiddil yr olwg oedd perchennog y siop honno ac ynddi ar un adeg ymhell o'i flaen ef yr oedd y llythyrdy cyntaf ym mhentref Tregarth. Yr oedd cartref Mr. Moses Hughes ynghlwm wrth ei siop a'r drws nesaf iddo ef y bu'r diweddar Mr. Roy Owen o barchus goffadwriaeth a'i deulu'n byw pan oeddent yn trigo ym mhentref Tregarth. Roedd ef yn athro Ffrangeg yn Ysgol Dyffryn Ogwen pan oeddwn i'n ddisgybl yno yn y 1960au.

Wedi i blant Mr. Owen hedfan y nyth, fe symudodd ef a'i wraig i Lanfairfechan i fyw. Bu farw yno yn y 1980au cynnar. Y drws nesaf iddo ef yr oedd y diweddar Mr. Aled Huw Roberts a'i ymadawedig wraig Anita Roberts yn lletya cyn iddynt symud i Gaernarfon i fyw. Mr. Roberts oedd prifathro Ysgol Tregarth yn y 1950au ac Ysgol Bodfeurig cyn hynny. Byddai Mr. Roberts yn hoffi ysmegu sigarets Craven "A" a werthid mewn pecynnau cochion gyda llun cath fach ddu arnynt. Roedd ef yn fodelwr penigamp a'i wraig yn gantores heb ei hail. Roeddent yn perthyn i'r Methodistiaid Calfinaidd ac addolent yng nghapel Penygroes, Tregarth.

Union gyferbyn â hen gartref y diweddar Mr. Aled Roberts, prifathro Ysgol Tregarth, roedd Tan yr Onnen lle'r oedd y diweddar Mr. Jack Robinson yn byw gyda'i wraig. Cymro byrgoes unieithog ydoedd Mr. Robinson ac er mai dim ond un ysgyfant oedd ganddo, roedd yn ysmygwr trwm. Hoffwn dynnu sgwrs gydag ef pan ddeuwn ar ei draws gan amlaf gyda'i bwys ar bennor ei ardd lysiau ar fin y ffordd o Fynydd Llandegai drwy Sling lle mae honno'n ymuno â'r B4409 drwy Dregarth ar bwys Pont Penralla. Nid oedd ei hafal am dyfu persli.

Ychydig yn uwch i fyny'r ffordd oddi wrth siop esgidiau'r diweddar Mr. Moses Hughes ac yr un ochr i'r ffordd â hi oedd siop gig y pentref. Yn yr adeilad hwnnw yn y 1920au y bu'r diweddar Phoebe Jones, merch y diweddar Barchedig Griffith Jones Tregarth yn cadw ail lythyrdy'r pentref cyn i'r lle gael ei droi'n siop gig. Gŵr ffraeth tal, anhyderus a chrydd wrth ei alwedigaeth oedd Griffith Jones ac fe'i galwyd i fugeilio eglwys Penygroes yn 1875. Bu farw yn 1886 a chafodd ei gladdu ym Mynwent y Gelli yn agos i ddrws yr eglwys ychydig lathenni oddi wrth fedd y diweddar Huw Derfel Hughes awdur Hynafiaethau Plwyf Llanllechid a Llandegai.

Am gyfnod o tua 1962 ymlaen bu bachgen o'r enw James Malone yn byw yn siop y cigydd gyda'i fam weddw a'i frawd iau o'r enw David. Daethant yno i fyw o Sheffield wedi i ŵr Mrs. Malone farw o ganser yno. Roedd James Malone a minnau yn yr un dosbarth yn Ysgol Dyffryn Ogwen o tua 1962 tan tua 1965 ac roeddwn i'n un o'i gyfeillion mynwesol yr adeg honno. Ei ewythr oedd yn rhedeg y siop gig yn Nhregarth ac nid oedd llawer o Gymraeg rhyngddo ef a'm cyfaill ac, am ryw reswm nad yw'n hysbys i mi, ni adawodd ef yr un ddimai goch y delyn yn ei ewyllys wedi iddo drengi er gwaethaf ei gyfoeth mawr i na James Malone, fy nghyfaill, na David, ei frawd. Er iddo gael ei ddiarddel o Ysgol Dyffryn Ogwen pan oedd yn y chweched dosbarth yno, mae James Malone yn grochenydd enwog a thra llwyddiannus erbyn hyn ac yn dad i bedair geneth ac y mae bellach yn byw yn Cumbria.

Ychydig flynyddoedd wedi i James Malone adael Tregarth am byth, fe chwalwyd ei hen gartref ac wedi hynny fe ledwyd ac fe sythwyd y ffordd o'i flaen ac fe adeiladwyd dau dŷ annedd ar yr hyn oedd ar ôl o'r tir yr oedd hen safle siop y cigydd arno gynt.

Ychydig lathenni oddi wrth siop y cigydd yr oedd gweithdy bychan gyferbyn â gwaelod Allt George lle'r oedd cobler canol oed o'r enw Mr. Wheldon yn cyweirio esgidiau plant ac oedolion Tregarth yn nyddiau fy maboed yn y 1950au cynnar. Cafodd yr adeilad ei ddymchwel ar yr un adeg â siop y cigydd.

**Dafydd Llewelun (gynt o Dregarth)**

**EGLWYS UNEDIG BETHESDA****'LLENWI'R CWPAN'**

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau

rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

## OWEN'S TREGARTH Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd  
Arbenigo mewn meysydd awyr

**01248 602260**  
07761619475



[www.owenswales.co.uk](http://www.owenswales.co.uk)

**JR** SGAFFALDIAU Cyf. **JR**  
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,  
GWYNEDD LL57 3NE

e-bost: [sales@jrsc scaffolding.co.uk](mailto:sales@jrsc scaffolding.co.uk)

Ffôn/Ffacs:  
**01248 601754**  
07770 568743 (symudol)



## MODURDY FFRYDLAS



Profion  
M.O.T.

Perchennog  
A. Ll. Williams

**Stryd Fawr, Bethesda**  
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO  
♦ TEIARS A BATRIS ♦  
GWASANAETH TORRI I LAWR  
NEU DDAMWAIN

☎ 600723  
Ffacs: 605068

## Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD  
EICH  
CYFREITHIWR  
LLEOL

SGWÂR BUDDUG  
STRYD FAWR  
BETHESDA  
GWYNEDD  
LL57 3AG

☎  
BETHESDA  
01248 600171  
[torg@hotmail.co.uk](mailto:torg@hotmail.co.uk)

**Cyfreithwyr**

Y CYNGOR CYNTAF  
AM DDIM

EWYLLYSIAU A  
PHROFIANT

SYMUD TŶ

Ymgymmerwr adeiladu a  
gwaith saer

**Ronald Jones**

Bron Arfon, Llanllechid  
Bethesda

☎ 01248 601052

Callai eich hysbyseb

**Chi**

fed yma!

01248 600853

Sefydlwyd

1969

**m.hughes**  
a'i fab

**CONTRACTWYR TOI**

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.  
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.  
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am  
waith diguro.

**Malinda Hayward**  
(Gwniadwraig)

Awel Deg  
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo  
- trwsio, altro ac ati -

**Ffoniwch**  
**01248 601164**



Torri Gwalltau  
Dynion a Phlant  
gan Alison

**YSGOL YRRU**

**DerfeL**

07982 076 455

01248 605 325

[derfelowen@sky.com](mailto:derfelowen@sky.com)



Haulfryn - Llanllechid

## Contractwyr Trydanol

**Jones & Whitehead** Cyf

Swyddfa Gofrestredig  
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257  
Ffacs: 01248 601982

E-bost: [info@jonesandwhitehead.co.uk](mailto:info@jonesandwhitehead.co.uk)



## Noson Apêl Siôn Guto

Rydych eisoes wedi darllen hanes Siôn Guto o Erw Las yn y Llais. Fel y cofiwch mae ar Siôn angen iau newydd ac mae ar y rhestr ac yn gobeithio y bydd y ffôn yn canu. Fodd bynnag mae ei ymweliadau â'r ysbyty yn aml.

Penderfynodd cyfeillion iddo fo a'r teulu y buasant yn hoffi gwneud rhywbeth i helpu, ac felly y bu. Trefnwyd noson yng Nghlwb Criced a Bowlio Bethesda nos Sadwrn 29 Mawrth yng nghwmni Wil Tân a Ceri oedd yn barod iawn i ddod gan ei fod yn ewythr i Siôn. Trefnodd Karen, Lena a Dianne o Erw Las bopeth, gyda Karen yn brif gogydd y lobsgôws, a oedd yn fendigedig.

Roedd y lle dan ei sang a chafwyd noson arbennig o dda a phawb mewn hwyliau da. Darllenodd Karen nodyn o ddiolch i bawb gan Siôn. Tynnwyd raffl fawr iawn gan Derek ac roedd y gwobrau yn rhai gwych. Dymuna'r criw ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau. Y Clwb Criced a Bowlio, Wil Tân a Ceri, C. L. Jones, Y Wifren Wib, Plas Ffrancon, Becws Cae Groes, Moduron Pandi, Serena, Trends, Caffi Coed y Brenin, Londis, Tesco, Y Siôr, Pesda Poochies, Rheilffordd Eryri, Gelli Gyffwrdd, Alton Murphy, Clinton Jones, Harlech Foodservices ynghyd â nifer mwy o ffrindiau a theulu am eu cyfraniadau at y raffl.

Cyfanswm Apêl y noson £1,900 ARDDERCHOG. Da iawn ti, Pesda! Pob lwc i ti Siôn.



**Yn y llun Criw Trefnu Erw Las  
Ar y blaen Siôn, Karen, Dianne, Gethin, Lena.  
Tu ôl Cara Ceri a Jack**

## Meithrinfa Ogwen Cyf

3 Ffordd Carneddi, Bethesda, Bangor



Angen cymhorthyddion yn y Feithrinfa i fod ar gael i weithio dros gyfnod mamolaeth yn ein hantur newydd  
Dechrau'n Deg, dros absenoldebau salwch, a phan fo staff ar wyliau neu ar gursiau.

Rhaid meddu cymhwyster  
Lefel 3 mewn gofal plant a cael DBS dilys.

Am fwy o fanylion ffoniwch  
Mrs Delyth Jones 01248605555

## O'r Cyngor

### Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth 2014 yng Nghanolfan Tregarth gyda'r Cynghorydd Dafydd Owen yn y gadair. Mae trefniadau dan ystyriaeth i ddarparu hysbysfwrdd newydd yn Nhregarth.

Parheir i geisio cael biniau ysbwriel ychwanegol ar yr hen A5. Ceisir hefyd cael torri'r gordyfiant gerllaw'r tai henoed.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau i geisio gwella gwelededd gerllaw cyffordd ym Mynydd Llandygái. Gan fod problem gyda choed mawr nid yw'n debygol y gellir cael cysgodfan bws gerllaw Canolfan Tregarth, ond cafwyd addewid y byddid yn trin y ffordd o'r Ganolfan at y briffordd yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Owen ar ei gyfarfod gyda swyddog llwybrau'r Cyngor Sir, gan y Cynghorydd Rhys M. Llwyd ar Ganolfan Tregarth a chan y Cynghorydd Mrs Gwen Griffith ar Ddigonolrwydd Chwarae. Cyflwynwyd gwybodaeth am y sefyllfa bresennol ynglŷn â Phartneriaeth Ogwen gan y Cynghorydd Mair O. Pierce.

### Cyngor Cymuned Pentir

Yn eu cyfarfod ar 13 Mawrth clywodd Cynghorwyr Cyngor Cymuned Pentir am bryder trigolion ardaloedd Pentir a Chaerhun nad yw'r Band Llydan Ffibr cyflym wedi cyrraedd yr ardal ac er holi'r cwmnïau, nid oeddynt wedi derbyn ymateb boddhaol. Gofynnwyd i'r Cyngor ysgrifennu ar ran y trigolion a'r grŵp "Parchu Pentir" i'r Cwmni Open Reach a gofyn am sicrwydd y byddai'r gwaith yn cael ei wneud ym Mhentir a Chaerhun hefyd. Ar yr un pryd penderfynwyd ysgrifennu at yr Aelod Seneddol a'r Aelod Cynulliad i ofyn am eu cefnogaeth hwythau.

Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd am arwydd 30 m.y.a. a hwnnw yn fflachio ger Alotan Crescent ym Mhenrhosgarnedd a nodwyd fod y gwaith at y llwybr o Ganolfan Arddio Treborth i'r Antelope wedi cychwyn. Adroddwyd fod nifer dda o gymdeithasau lleol wedi gwneud cais am nawdd ariannol oddi wrth y Cyngor eleni, a chroesawyd hynny er budd pobl leol. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 10 Ebrill yn y Neuadd yng Nglasinfryn.

## Dathlu 40fed Cymanfa Sul y Blodau yn Nhalybont

Wyt ti'n cofio dod i Fethl'em, i'n Cymanfa gyntaf ni  
Yn saith-degau'r ganrif dd'wethaf pan oedd pethau yn eu bri;  
Cofio dechrau ar y siwrnai,  
Daw fe ddaw yr awr yn ôl i mi.

Wyt ti'n cofio holl frwdfrydedd aelodau'r pwyllgor gynt,  
Mewn ffydd, yn cychwyn menter heb sicrwydd am ei hynt;  
Yn annwyl heno y gwnawn eu cofio,  
Daw fe ddaw yr awr yn ôl i mi.

Wyt ti'n cofio'r arweinyddion fu'n ysbrydoli'r gân,  
Yn llwyddo'i gynnal safon bob tro yn ddiwahan,  
A hwyl y canu a'r moliannu,  
Daw fe ddaw yr awr yn ôl i mi.

Wyt ti'n cofio'r holl unawdwyr fu yma yn eu tro,  
A'r corau lu a'u canu'n atseinio dros y fro,  
A lleisiau Carmel yn llenwi'r capel,  
Daw fe ddaw yr awr yn ôl i mi.

Wyt ti'n cofio'r un fu'n sylfaen ac yn gefn i'r Gymanfa hon,  
Ie, Wyn, fu wrth yr organ am ddeugain mlynedd gron;  
Diolch iddo wnawn wrth gofio,  
Daw fe ddaw yr awr yn ôl i mi.

**Neville Hughes (13 Ebrill 2014)**

## Cymdeithas Genweirwyr Dyffryn Ogwen

Ers dechrau'r flwyddyn mae aelodau'r Pwyllgor Gwaith wedi bod wrthi'n dawl bach yn gwneud paratodau ar gyfer y tymor newydd. Erbyn hyn, mae'r trwyddedau wedi cael eu hargraffu ac ar werth; mae'r rhwydi wedi eu gosod ar argae Llyn Ogwen ac mae stoc cyntaf y tymor wedi setlo i mewn yn eu cartref newydd. Y newyddion da yw ei bod yn fwiad y tymor hwn rhoi rhywfaint o bysgod mwy ymhlith y stoc arferol. Mae Ebrill yn amser pan fo'r 'sgotwr, fel cysgadur, yn deffro o'i drwmgwsg ac yn dychwelyd at y dyfroedd yn llawn cyffro a gobai, yn anymwybodol o'r gwaith sy'n digwydd y tu ôl i'r lleni.

Unwaith eto 'leni rydym yn gobeithio chwyddo'n haelodaeth ac yn ysu am dywydd go lew yn ystod wythnosau cyntaf y tymor er mwyn tentio hen gyfeillion i ail afael mewn genwair. Mae prisiau trwyddedau'r tymor wedi cael eu rhewi ar gyfer 2014 ac am y tro cyntaf rydym yn gwerthu 'talebau' a fydd yn ei gwneud hi'n haws lledaenu'r gost. Byddwn hefyd yn gwneud ymdrech i ddenu mwy o ymwelwyr drwy gynnig trwydded diwrnod i sgota'r llynnoedd uchaf sef Llyn Idwal, Llyn Bochlyd a Ffynnon Lloer am frithyll gwyllt.

Yn olaf mae gen i newyddion da i deuluoedd pysgotwyr sy'n crafu eu pennau'n flynyddol wrth feddwl am anrhegion pen-blwydd. Mae'r gymdeithas bellach yn gwerthu crysau polo a 'hwdis' o ansawdd uchel gyda bathodyn unigryw 'Sgotws Ogwen' ar y fron. Mae yna ddewis eang o liwiau am brisiau rhesymol ac os ydych yn meddwl y byddai anrheg o'r fath yn plesio rhwch ganiad i Alec Roberts ar 07733 325 804.

Os am anrheg mwy ymarferol beth am brynu un o'r 'talebau' y soniais amdanynt uchod. Maent ar gael am £5, £10 neu luosiad o hynny. Gallwch wneud hyn drwy anfon siec drwy'r post i'n trysorydd Bryn Evans, 4 Tan y Coed, Bron Arfon, Llanllechid, LL57 3LW neu gallwch wneud ymholiad drwy anfon e-bost at sgotws@gmail.com neu ffonio Bryn ar 602309.

Os nad ydych yn ffyddiog y bydd yr un o'r rhain yn plesio'ch anwylyd peidiwch â digalonni, achos am y tro cyntaf ers hydoedd mi fydd hi'n bosib prynu gôr 'sgota ym Methesda a hynny yn siop W H Lewis. Rydym fel cymdeithas yn cymeradwyo menter y perchnogion ac yn annog ein haelodau i'w cefnogi drwy brynu yn lleol.

**Pob Lwc**  
**Gareth Evans**

## Clwb Celf Moelyci

Os oes gennych ddiddordeb mewn arlunio neu beintio ond ddim yn gwybod lle i gychwyn, dewch am gyflwyniad yn rhad ac am ddim i weld a allwn ni eich helpu.

Gallwch fod yn hollol ddibrofiad ac i gychwyn nid oes angen prynu dim.

Rydym yn griw bach felly cewch sylw unigol.

Dewch i sgubor Fferm Moelyci ddydd Mawrth o 2.00 tan 4.00 neu ffoniwch Pete Smith 01248 602351.



**T.G.S**

**CONTRACTWR TOEAU AC ADEILADU**  
2 Glan yr Afon, Carneddi, Bethesda LL57 3TB  
☎ 08000 126 213 tgsroofing@hotmail.com

**Ffoniwch Mark i drafod eich anghenion adeiladu.  
Mae gwarant 20 mlynedd ar ein toeau fflat!**

## CAB Gwynedd & De Ynys Môn

cyngor  
ar  
bopeth

# Angen cyngor?

**Rydym yma i helpu.  
Pwy bynnag ydych chi.  
Beth bynnag fo'r broblem.**

Cysylltwch â ni

**08444 772 020** (Llinell Gymorth Cymru)  
Rhwyng 9.00 yb a 4.30 yp Dydd Llun – Dydd Gwener

Neu

**0845 450 3064** (Llinell Gymorth Gwynedd)  
Rhwyng 10 yb a 3 yp Ddydd Llun – Ddydd Gwener  
(yn ymestyn i 7 yh Dydd Llun a Dydd Iau)



**Alun Ffred Jones**  
Aelod Cynulliad  
Etholaeth Arfon

### CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

[alunffred.jones@cymru.gov.uk](mailto:alunffred.jones@cymru.gov.uk)



**Hywel Williams**  
Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

### CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

[williamshy@parliament.uk](mailto:williamshy@parliament.uk)



## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Mawrth aeth nifer o aelodau'r gangen i gyfarfod o Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Arfon i dderbyn adroddiadau o rannau eraill o'r Plaid Lafur (er enghraifft canghennau Plaid Lafur Gwynedd a Phlaid Lafur Gogledd Cymru). Y nod oedd paratoi ar gyfer etholiad Ewrop ar ddiwedd mis Mai eleni ac ymgyrch etholiad Prydain fis Mai'r flwyddyn nesaf. Hefyd penderfynwyd dechrau trafod y dogfennau polisi ar gyfer maniffesto 2015 ym mis Ebrill.

Tua diwedd y mis cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen i dderbyn adroddiadau gan Plaid Lafur Arfon, Cyngor Gwynedd (e.e. y penderfyniad i godi'r dreth i 3.9% yn hytrach na 3.5% er mwyn codi'r cyflogau isaf), y cynghorau cymuned (e.e. diweddariad ynglŷn â gwaith Partneriaeth Ogwen a rhoddion i gymdeithasau lleol) a Llywodraeth Cymru (e.e. yr ymgyrch i hyrwyddo mudiadau cydweithredol, mwy o arian i Ddechrau'n Deg a sefydlu mwy o fusnesau). Hefyd lluniwyd rhaglen fras o weithgareddau am y flwyddyn.

Da oedd clywed bod gwaith wedi dechrau ar system traenio Stryd Britannia wedi i'r Cynghorydd Godfrey Northam bwysu am welliannau am flynyddoedd. Mae rhai o'r trigolion wedi bod yn dioddef o ddŵr yn gorlifo trwy'r tai ar adegau bob blwyddyn.

Ni chynhelir cyfarfod ym mis Ebrill oherwydd etholiadau Ewrop ar 22 Mai, felly bydd y cyfarfod nesaf ar 28 Mai a'r cyfarfod blynyddol ym mis Mehefin.

## Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ar 25 Mawrth yng Nghanolfan Cefnfaes.

Cafwyd diweddariad ar yr Eryrod Eira a deall bod popeth bellach yn eu lle. Er hynny gobeithio na fydd tywydd mawr yn ein hwynebu erbyn hyn a hithau'n ddechrau'r gwanwyn.

Mae'n amser prysur iawn bellach gydag Etholiad Ewrop yn nesáu ac er nad oes lawer o ddiddordeb yn cael ei ddangos ar draws gwlad mae'n bwysig bod llais Cymru i'w glywed yn glir yn Ewrop. Byddwn yn trefnu ymgyrch ganfasio ar gyfer hyn.

Trafodwyd sylwadau Hywel Williams A.S. yn ei lythyr misol ynglŷn â'r cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd yng Nghaernarfon fis diwethaf ynghylch dyfodol gwasanaethau arbennig babanod newydd-anedig yng Ngogledd Cymru. Bwriedir eu symud i Arrowe Park a buasai'n rhaid i rieni wynebu'r daith yn ôl a blaen, yn ogystal â'r gost ychwanegol, a hwythau eisoes mewn gwendid a gofid. Credai Hywel Williams mai dim ond dechrau'r broses o ganoli fuasai hyn ac y byddai uned arbenigol yn Ysbyty Glan Clwyd yn llawer gwell a thecach i deuluoedd yng Ngwynedd a Môn.

Bydd Alun Ffred Jones A.C. yn encio drysau Ogwen Isaf ac yn cynnal cymhorthfa yng Nghanolfan Cefnfaes ar yr ail o Fai.



## SWYDDOG DATBLYGU Rhan amser, £30k pro rata

Mae Partneriaeth Ogwen am benodi Swyddog Datblygu, a fydd yn gyfrifol am gydlynu prosiectau'r Bartneriaeth. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus gydweithio gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol, a datblygu prosiectau cymunedol newydd.

Mae Partneriaeth Ogwen yn chwilio am berson sydd â gweledigaeth glir ynghylch datblygiad gynaliadwy'r Bartneriaeth, sydd â dealltwriaeth o waith cymunedol, a phrofiad o reoli prosiectau a chyllid.

2-3 diwrnod yr wythnos, oriau hyblyg.

## SWYDDOG GWEINYDDOL Rhan amser, £18k pro rata

Mae Partneriaeth Ogwen am benodi swyddog gweinyddol i weithio yn ei swyddfa newydd ar Stryd Fawr Bethesda. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys gwaith gweinyddol ar ran y Bartneriaeth ac ymateb i ymholiadau trigolion lleol ac ymwelwyr. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gwneud gwaith clericio i rai o Gynghorau Cymuned Dyffryn Ogwen ac yn delio o ddydd i ddydd gyda nifer fechan o denantiaid y Bartneriaeth.

2-3 diwrnod yr wythnos, oriau hyblyg.

Byddai Partneriaeth Ogwen yn croesawu ceisiadau gan unigolion a fyddai'n awyddus i gyfuno'r ddwy rôl uchod.

Cymraeg yw iaith weinyddol Partneriaeth Ogwen.

Manylion pellach a ffurflen gais:

Dafydd Meurig, Partneriaeth Ogwen,  
1 Rhos y Nant, Bethesda, Gwynedd. LL57 3PP  
07765 400140; cyngorllanllechid@gmail.com

Dyddiad cau: Dydd Llun 28<sup>ain</sup> Ebrill

# Nyth y Gân

## Briallu

Yn brudd o dan oer briddyn, yn aros  
I'r oriau ymestyn;  
Dilladwyd hwy oll wedyn  
Mewn aur braf ym manau'r bryn.

## 'Sbring Clinio'

Mewn sied am flynyddoedd o'r golwg y bu,  
A chafodd un diwrnod ei gludo i'r tŷ;  
Pleserus oedd bodio cynhwysion y tun  
A deffro atgofion plentyndod wnaeth hyn.

Rhyw ddeigryn bach redodd i lawr fy nwy foch  
Wrth weled y geriach i gyd mewn lliw coch  
O gofio defnyddio sawl un pan oedd rhaid  
I drwsio a thrwsio fel ag yn oes taid.

Ni allwn i daflu ond 'chydig o'r rhain,  
I'r llygaid daeth rhwd ond i'r galon daeth glain,  
A balch fyddai'r rheini a'u parchodd am hir  
Eu bod unwaith eto'n lliw arian yn wir.

## Tyddynnwr Albanaidd neu'r Crofftwr

Blin iddo fu'r blynyddoedd yn tynnu  
Hyd donnau y dyfroedd  
A herio'r salaf diroedd,  
Yn y naill ei galon oedd.

## Lliwiau

Ebrill a ddaw i olwg y mynydd  
A gwynnu'r fan gyda'i dlws blu gweunydd,  
A'r ddraenen ddu yn ei gwynnaf wisg  
Sy'n gwarchod y cyw dan ei denau blisg.

Ail-wisga y coed yn eu dillad gwyrd  
I edrych mor ddedwydd uwch ben ein ffyrdd.

Gorffennaf a grwydra hyd lwyni'r drain  
I liwio eu ffrwyth ar eu coesau main,  
Yn wyrd ac yn goch a'u troi'n felys a du  
A hawdd yw adnabod y manau ble bu.

Mae Awst yn y grug yn prysur borffori,  
A harddu mae yno'r mân glytiau rhwng meini;  
Fe dry'r griafolen ei ffrwyth yn lliw gwaed  
A Medi yn dechrau melynu dan draed.

Daw aur yr Hydref i grino'r rhedyn  
A charthen Rhagfyr i'w guddio wedyn.

Dafydd Morris

## Cof Cenedl

Afon yw'r stori honno – a deithia  
hyd wythi ein cofio;  
Pob bryn, pob llannerch, pob bro,  
Eu hanes sy'n ein huno.

Goronwy Wyn Owen

## Llogi Canolfan Tregarth

Os ydych eisiau cynnal  
gweithgaredd yn y ganolfan,  
yna cysylltwch â  
Peter Roberts 602123,  
Angharad Williams 601544 neu  
Rhys Llwyd 601606

## CHWILAIR EBRILL 2014

### Diarhebion

A	A	R	F	Y	L	L	F	O	C	F	O	C	U	A	R	O	G	W	F
H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H
E	I	R	U	T	N	A	B	E	H	W	L	E	L	M	A	N	A	M	G
A	F	Y	N	N	O	G	L	O	D	B	I	D	F	A	R	W	V	H	M
D	D	O	F	A	T	L	A	T	A	I	T	N	A	D	W	Y	A	D	W
H	U	Z	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q	U	S	O	F	R
T	E	C	A	F	F	R	O	B	R	O	M	E	B	Y	D	P	Y	Q	Z
G	R	H	C	U	M	W	N	O	Y	R	I	A	S	Z	U	T	F	D	X
U	F	F	O	L	P	A	W	B	A	R	B	R	Y	D	I	A	U	P	W
R	H	C	Q	H	W	E	H	O	Y	E	E	G	E	O	M	H	E	P	T
T	C	B	B	C	U	U	J	P	L	T	M	I	V	V	D	C	B	B	F
G	A	I	R	M	A	M	A	B	E	R	Y	N	H	I	R	R	F	O	G
H	E	B	E	I	F	A	I	H	E	B	E	I	E	N	I	J	V	I	I
Y	F	D	Y	G	A	W	L	C	Y	N	O	E	R	O	R	R	X	I	M
H	T	T	O	S	K	O	P	W	R	C	M	K	C	B	O	R	C	X	V
R	O	G	Y	F	O	E	T	H	Y	D	A	W	G	O	F	I	D	Y	H
S	T	M	R	E	F	Y	J	D	Z	H	B	C	W	O	S	C	R	A	I
X	U	G	S	Y	G	R	I	H	O	A	D	R	I	E	H	C	I	N	N
I	A	R	A	B	W	Y	D	Y	W	B	Y	N	I	N	E	R	B	L	X
J	J	M	B	W	T	E	X	M	D	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O	I

Dyma fwy o **ddiarhebion** i chi eu darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? Mae LL, CH, DD, TH, NG a RH yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilaer dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW. Erbyn **1 Mai**. Bydd gwobr o £5 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd neb yn dod o hyd i'r deuddeg yna'r sawl sy'n cael y nifer fwyaf fydd yn cael y wobwr.

Mae'n amlwg eich bod yn hapusach gyda diarhebion Cymraeg nag enwau gwledydd Ewrop. Dim ond wyth ateb wedi dod trwy'r post ar gyfer chwilaer mis Mawrth, a phob un yn gywir. Felly yn ôl a ni am fwy o ddiarhebion.

**Dyma atebion Mawrth.** Andora, Awstria, Belarws, Cyprus, Denmarc, Estonia, Latvia, Malta, Portiwgal, Rwsia, Slofacia a Twrci.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir.** Mrs Glenys Clark, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Rosmary Williams, Tregarth; Elfed Bullock, Bethesda; Mair Jones, Bethesda; Eirlys Edwards, Bethesda; Marilyn Jones, Bethesda; Herbert Griffiths, Tregarth.

**Enillydd Mawrth oedd** Herbert Griffiths, 46 Bro Syr Ifor, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AS

"FFONIWCH OS AM GAEL  
MWY O 'FISITORS' DROS  
YR HAF"

tel: 01341 247 200  
ebost: gwion@dioni.co.uk

DIONI.



# Côr Meibion y Penrhyn

## Caneuon newydd

Mae'r côr wrthi'n brysus yn dysgu caneuon newydd ar gyfer y rhaglen lawn o gyhoeddiadau sydd o'n blaenau dros y misoedd nesaf. Ar ôl llwyddiant ysgubol perfformiad y côr yn agoriad siop Pringles yn Llanfairpwll edrychwn ymlaen at gyfresi o gyngherddau yn Henllys, Biwmares ac Eglwys Sant Ioan, Llandudno ynghyd â'r ymweliad hanesyddol â dinas Derby ar 26 Ebrill. Ymhlith y caneuon newydd a fydd yn helaethu rhaglen y côr mae Tawel yw'r Môr gan Heinrich Pfeil, Dagrau, trosiad i'r Gymraeg o Tears in Heaven gan Eric Clapton a threfniant Owain Arwel o Bring Him Home allan o'r sioe gerdd Les Misérables gan Schonberg, Kretzmer a Boubil.

## Symud Cartref

Wedi cyfnod yn y Clwb Criced mae'r côr yn bwriadu defnyddio Neuadd Ogwen fel man cyfarfod ar gyfer ymarferion pan ail agorir honno fel canolfan aml bwrpas ddiweddd yr haf. Mae'r côr yn awyddus i ddatgan ei ddiolchgarwch i bwyllgor y clwb criced am eu cydweithrediad parod tra'n defnyddio'r cyfleusterau yno, ond bydd symud i Neuadd Ogwen yn golygu y byddwn yn medru cyflawni'n haws ein dyletsydd i fenthycia offer i gymdeithasau. Bydd y piano a'r offer sain sydd ym meddiant y côr yn cael eu

cadw'n barhaol yn Neuadd Ogwen a bydd hynny'n ei gwneud yn llawer haws i gymdeithasau lleol logi a defnyddio'r offer.

## Cymeriadau'r Côr

Cyfes yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn.

Yr aelod y mis hwn yw Gwilym Owen a fu, cyn ymddeol, yn gweithio am flynyddoedd mewn storfa i amaethwyr ym Mhenrhosgarnedd, Bangor.



Be' ydy dy enw llawn? - Gwilym Owen

Oed? (ta ydy hynny'n breifat?) - 72

Lle wyt ti'n byw?- Rhos y Nant, Bethesda

Un o le wyt ti'n wreiddiol? - Pesda (Carneddi)

Pa dri o'r rhain fasai'n dy ddisgrifio orau? Hapus / Bywiog / Anturus / Medrus / Mwynhau Bywyd / Tawel / Hoffi cwmni / Hael / Gofalus efo arian / eisiau bod yn unawdydd / Un sy'n canu yn y bath? Mwynhau Bywyd

Ers faint wyt ti'n aelod o'r Côr? - 1960

Pa lais wyt ti? - Bas 2

Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn? - Mynd efo dau neu dri arall oedd yn mwynhau canu

Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr? - Bendigedig

Pwy ydy dy hoff ganwr / gantores? - Bryn Terfel

Beth ydy dy farn di am ganu pop? - lawn yn ei le

Oes gen ti atgof difyr am ryw ymweliad efo'r Côr? - Canu yn y Gadeirlan yn Bonn ar ymweliad cyntaf y côr â'r Almaen.

Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r Côr? - Garddio, Pysgota a thynnu lluniau.

Oes yna ryw beth faset ti'n hoffi gweld y Côr yn ei wneud? - Gallu denu mwy o hogiau ifanc i ganu yn y côr.

## Croesair Ebrill 2014

### AR DRAWS

- 1 Gall codi hwn eich gwneud yn sâl neu fesur trymder (4)
- 5 Nid rhain (4)
- 7 Trwsgl (7)
- 8 Brân, jac y do a mwyalchen (4,4)
- 10 Gallai hwn fod yn byw yng nghartref un o'r 8 Ar Draws (4)
- 12 Y cwbul (1,3)
- 14 Collodd ei limpyn, ac yn ei ----- gwnaeth beth hurt (8)
- 16 I gyflymu'r march a'r modur (8)
- 17 Cosb y llys am ymddwyn yn anghymdeithasol (4)
- 18 Natur cylch (4)
- 19 Arferiad diweddar i helpu'r amgylchedd (8)
- 22 Gweithred grefyddol wrth goroni breinin neu frenhines (7)
- 23 Yn ddryslyd a heb gerpyn o'th en i lawr (4)
- 24 Mari ----, hen arferiad blwyddyn newydd (4)

### I LAWR

- 1 Hanner ôl glöyn byw neu iâr fach yr haf (4)
- 2 Crefftwr coed (4)
- 3 Saith tew neu saith tenau oedd yn un Joseff (8)
- 4 Yn ôl hwn, mae cario glo i Fflint yn waith peryglus iawn (4)
- 5 Anhwylder y traed sy'n swnio fel pe bai'n dod o'r gwres a'r oerni (4,4)
- 6 Yr afon yn newid lliw wrth symud (4)

9 Sur i gyd. Fawr o fwyniant na phleser (7)

11 Aiff a ni o gwmpas y llyn neu i gopa'r mynydd uchaf (4,3)

13 Efallai fod ei hanner fel 23 Ar Draws y diwrnod canlynol (8)

15 T.Llew Jones, "Brenin --- ----" (3,5)

18 Ewin yr ebol. Mae'n blanhigyn hefyd efo'r un anifail (4)

19 Lwlen, un o organau'r corff (4)

20 Yn llawn tân a nwyd a dyhead ac yn difa weithiau (4)


21 Safle'r holl gliwiau o flaen hwn (4)

### ATEBION CROESAIR MAWRTH 2014

AR DRAWS 7 Madarch, 8 Eryrod, 9 Rhaca, 10 Ymprydio, 11 Pnawn, 12 Crempog, 15 Persain, 17 Ochrau, 20 Cribinio, 22 Neon, 23 Dyfrio, 24 Trengodd

I LAWR 1 Masarn, 2 Paradwys, 3 Achwyn, 4 Deuparth, 5 Fyny, 6 Domino, 13 Machynlleth, 14 Rhiannon, 16 Ebrwydd, 18 Amodol, 19 Popty, 21 Bwrw

Holli blew neu beidio, bu'n rhaid i mi gosbi nifer ohonoch am gynnig 'amodau' yn lle'r ateb cywir 'amodol' a 'tregai' yn lle 'tregodd'. Ond rhaid oedd gwneud hynny er mwyn tegwch â'r mwyafriaf a'u cafodd yn gywir. Camgymeriadau eraill oedd 'matharn' yn lle 'masarn' a 'persair' yn hytrach na 'persain'.



Dyma'r cynigion cywir a ddaeth i law : Dilys A.Pritchard-Jones, Abererch; Ellen Whitehouse, Birmingham; Elfed Evans, Llanllechid; Donna Coleby, Penwortham; E.E.Roberts, Llanberis; Dulcie Roberts, Sara a Gareth Oliver, Tregarth; Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Dilys Jones, Bangor Uchaf; Gareth William Jones, Bow Street; Jean Hughes, Barbara Jones, Talybont.

Ond y cyntaf allan o'r het y tro hwn oedd cynnig John a Meirwen Hughes, Cwellyn, 4 Heol Elwy, Abergele LL22 7US. Llonyfarchiadau calonnog i chi.

Atebion erbyn dydd Mercher, 30 Ebrill 2014 i: 'Croesair Ebrill', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

**PESDA POOCHIES****Siân Lloyd-Ellis**

Gwasanaeth Harddwch Cŵn  
Glanhau, golchi, tylino a thrimio cŵn

Gwasanaeth casglu o'r cartref

07415032812  
Sianlloyd101@gmail.com  
Llidiart y Foel, Carneddi  
Bethesda  
LL573SB

**SAMARIAID**

Mae  
**Llinell Gymraeg**

**0300 123 3011**

ar gael bob nos rhwng  
7.00pm ac 11.00pm

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a  
selio lloriau coed caled,  
adnewyddu lloriau  
gwreiddiol a chyweirio  
lloriau sydd wedi eu  
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.  
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

**WU SHU KWAN****Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)**

Dosbarthiadau  
yng Nghanolfan  
Gymdeithasol  
Tregarth bob  
nos Fercher  
6.30 tan 8.30


Un sesiwn am ddim os dewch  
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦

Manylion gan Jake neu Elena  
Fitzpatrick - 01248 602416  
neu galwch heibio'r dosbarth

**MODURON  
PANDY  
Cyf.****Tregarth**

Gwasanaeth ♦ Atgyweirio  
Canolfan 'Unipart'  
M.O.T.

**Ffôn: 01248 600619 (dydd)****01248 361044 a 07771 634195**

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER  
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -  
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

**Bysus Gwyrdd Rhiwlas**

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY  
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

**Modurdy Central**

Ceir ail-law ar werth  
M.O.T. ar gael  
Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth  
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda  
☎601031

**Blodau Hyfryd**

7 Rhos Buddug, Bethesda  
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)  
*Blodau ar gyfer pob achlysur*

Priodasau, Angladdau ayyb  
Ffres a Sidan

*Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'*

**Cerbydau Penrhyn**

**CABIAU A BYSIAU MINI**  
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd  
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth  
Ambiwllans Gogledd Cymru

**Blodau Racca**

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r  
ansawdd gorau  
- gan hogan o Rachub*

**Ffôn: 01286 870605****Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel  
**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd**



- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr  
Bangor  
Gwynedd  
(01248) 370224



*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol  
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Lexcel

Swyddfeydd eraill:

**Llangefni** **Ambwch** **Benllech**  
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

**Caernarfon**  
(01248) 673616

**Pwllheli**  
(01758) 703000

**Hysbysebwr yn y Llais**  
**Cysylltwch â Neville Hughes**

**01248 600853****L. Sturrs  
a'i feibion**

sefydlwyd yn 1965

**ADEILADWYR**

**Hen Iard Stesion,  
Ffordd y Stesion, Bethesda**

**Ffôn: 600953****Ffacs: 602571****lsturrs@googlemail.com****Meithrin Menter Gymdeithasol Leol**

**Am gymorth:**  
i sefydlu menter  
i gynnal gweithdai  
i geisio am arian  
i redeg mudiad  
i wirfoddoli  
**cysylltwch â  
Mantell Gwynedd**



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol  
ymholiadau@mantellgwynedd.com  
01286 672626 neu 01341 422575  
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru  
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

# GAIR O'R DOSBARTH

## Ysgol Bodfeurig

### Croesawu Mrs Foulkes yn ôl!

Hoffai holl staff a phlant yr ysgol groesawu Mrs Foulkes yn ôl i'w gwaith ar ôl ei chyfnod mamolaeth. Mae pawb yn falch iawn o'i gweld yn ôl yma ym Modfeurig ac yn barod i setlo i fwrlwm bywyd ysgol!

### Dymuno gwellhad buan i Anti Wendy

Hoffai'r ysgol ddymuno gwellhad buan i Anti Wendy sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae Anti Wendy yn cynnal y clwb brechwast bob bore gydag Anti Medwen ynghyd â glanhau'r ysgol hefyd. Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld yn ôl yn eich gwaith yn fuan!

### Penwythnos Gwylt i Gymru!

Yn dilyn cais llwyddiannus 'Cadw Cymru'n Daclus', derbyniodd yr ysgol rodd o £150 i ddatblygu gardd wyllt ar iard yr ysgol i ddenu gwenyn a gloynnod byw. Bu'r rhieni yn brysur iawn yn clirio a pharatoi'r ardal ar gyfer y planhigion newydd.



Cafodd holl blant yr ysgol y cyfle i fynd a datblygu'r ardal drwy blannu hadau a phlanhigion. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i'r holl rieni sydd wedi rhoi eu hamser i wneud y prosiect yn un llwyddiannus!

### Dinosoriaid

Fel rhan o waith thema dosbarth Idwal y tymor yma bu plant y Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 yn dysgu am ddinosoriaid. Cafodd y plant lawer o hwyl yn creu dinosoriaid enfawr ar iard yr ysgol gan ddefnyddio sialc ac offer mawr.

### Ysgol y Goedwig

Yn ddiweddar mae dosbarth Tryfan wedi cael y fraint o fynd i goedwig Glan y Faenol yn wythnosol i weithio a dysgu yn yr awyr agored. Mae'r disgyblion wrth eu boddau yn cael mynd yno bob wythnos i brofi'r byd naturiol o'u cwmpas, gan weithio yn greadigol yr un pryd. Fe fu'r disgyblion yn drist iawn o weld y rhaglen yma yn dod i ben. Hoffai'r dosbarth ddiolch yn fawr iawn i'r arweinydd, Tom, a'r gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen.

### Menter yr Ifanc

Bu dosbarth Ogwen (Bl 4,5 a 6) yn gweithio gyda Mr Selwyn Griffith o Fenter yr Ifanc. Mae'r fenter hon wedi rhoi cyfle i'r disgyblion archwilio sut mae masnach a busnes byd eang yn gweithio, ynghyd â datblygiad economaidd gwledydd y byd. Mae'r disgyblion wedi bod yn llwyddiannus ac wedi gweithio ar brosiect 'Ein Byd' yn y dosbarth a phob un wedi ennill tystysgrif unigol. Da iawn chi, ddsbarth Ogwen!

## Ysgol Tregarth

### Hei Hogiau Bach!

Cafodd disgyblion Tregarth gyflwyniad i amryw o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar ddydd y llyfr, pan ddaeth criw Hei Hogia Bach i ymweld â'n hysgol. Llwyddodd y darlleniadau o'r llyfrau i greu llond bol o chwerthin a chodi blas am fwy. Braff oedd gweld bod rhai o'r plant wedi sicrhau copi o ambell lyfr yn fuan wedyn. Daliwch ati i ddarllen a gwneud defnydd llawn o'r llyfrgell leol.

### Hyfforddiant Rygbi

Mae Dosbarth Ogwen yn ffodus iawn o fod yn derbyn hyfforddiant Rygbi gan fyfyrwyr Coleg Menai. Maent yn dysgu taflu a dal a llawer o sgiliau y bydd arnynt eu hangen i gystadlu yn yr ŵyl rygbi ar ôl gwyliau'r Pasg.

### Fferm Efailnewydd

Fe aeth dosbarth Llywelyn a Dafydd i'r fferm yn Efailnewydd am y diwrnod. Cawsom groeso cynnes gan Gwyndaf a dysgwyd llawer am nifer o anifeiliaid y fferm gan gynnwys gweld genedigaeth wŷn y gwanwyn.

### Castell Caernarfon

Fel rhan o'r thema 'Chwedlau'r Ddraig' cafodd y dosbarth Meithrin a Derbyn brynhawn i'r brenin yng nghastell Caernarfon. Cawsom weld holl ryfeddodau'r castell gan fentro dringo ambell dŵr! Prynawn yn llawn profiadau gwych! Mae'r disgyblion wrth eu boddau nawr yn chwarae rôl yn ein castell yn y dosbarth.

### Waliau Dringo

Bu'r ysgol yn ffodus iawn o fod wedi derbyn waliau dringo newydd i'r Cyfnod Sylfaen sydd wedi eu lleoli yn nhu blaen yr ysgol a hefyd waliau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar yr iard gefn.



## Ysgol Abercaseg

### Dathlu Diwrnod y Llyfr



Pe baech wedi galw draw i'r ysgol ar ddechrau mis Mawrth nid llond y lle o ddisgyblion yn gwisgo siwmperi coch fyddai i'w gweld ond yn hytrach pob math o gymeriadau adnabyddus o fyd y llyfrau. Gwledd i'r llygaid oedd gweld y disgyblion wedi gwisgo fel eu hoff gymeriadau, a diolch i'w rhieni am fynd i'r fath drafferth. Roedd holl weithgareddau'r diwrnod yn seiliedig ar storïau o lyfrau Cymraeg ac yn benllanw ar y cyfan cafwyd Lisa Jên yn darllen straeon i'r gwahanol ddsbarthiadau.



Roedd pob disgybl yn gwrando'n astud ac yn mwynhau'r profiad yn fawr. Diolch yn fawr Lisa am roi o'rh amser a gwneud y diwrnod yn un cofiadwy i'r disgyblion.

### Llwyddiant yn yr Urdd

Unwaith eto eleni mae nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol wedi profi llwyddiant yng nghystadlaethau llwyfan a chelf a chreffft yr Urdd. Diolch yn arbennig i'r cymorthyddion a fu'n cynnal 'Clwb Celf Mr Urdd' yn wythnosol ers mis Medi, a hefyd i bawb a fu'n brysur yn hyfforddi'r disgyblion ar gyfer y cystadlaethau llwyfan. Gellir gweld y gwaith celf yn adran 'Newyddion' gwefan yr ysgol ar [ysgolabercaseg.org](http://ysgolabercaseg.org)

### Gwobr Aur i'r Ysgol!!



Yn ddiweddar buom yn darllen am sawl un yn ennill y wobwr aur yn Gemau'r Gymanwlad, ond pwy ohonoch oedd yn gwybod fod Ysgol Abercaseg wedi ennill Gwobr Aur hefyd? O ganlyniad i waith caled y grŵp Bysedd Gwyrdd yn hyrwyddo byw'n wyrdd yn yr ysgol a'r modd y maent yn edrych ar ôl a datblygu amgylchedd yr ysgol, mae'r ysgol wedi cael ei hachredu â Gwobr Aur Cynllun Ysgolion Gwyrdd. Da iawn chi blant, a pharhewch gyda'r gwaith caled!

### Rhodd gan gwmni Blakemore

Diolch i Bostfeistr Swyddfa Bost Bethesda am enwebu'r ysgol ar gyfer rhodd gan gwmni Blakemore. Derbyniodd yr ysgol rodd ariannol hael a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynnal a chadw gardd yr ysgol.

### Cacennau blasus

Diolch i bawb a fu'n brysur yn coginio cacennau a bisgedi ar gyfer y caffï yr oedd Cyfeillion Ysgol Abercaseg a Phen-y-bryn yn gyfrifol amdano yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Diolch hefyd i bawb a fu'n brysur yn helpu yn y caffï drwy'r dydd. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich cefnogaeth.

### Peryglon Tân

Yn ddiweddar daeth Gwawr, Swyddog Addysg gyda Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, draw i'r ysgol i roi cyflwyniad ar yr angen am larymau mwg yn y cartref a sut i oroesi tân i ddisgyblion dosbarth Ogwen. O wrando ar ymatebion y disgyblion i gwestiynau Gwawr, roedd pawb wedi gwrando a deall prif negeseuon ei chyflwyniad ac yn barod iawn i drosglwyddo'r wybodaeth i'w rhieni gartref.

## Ysgol Llanllechid

### Eisteddfod Cylch yr Urdd

#### Longyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant:

Hanna Jones 3ydd Llefaru Blwyddyn 2 ac iau; Cerys Elen 1af Unawd Pres Blwyddyn 6 ac iau; Gwydion Rhys 1af Unawd Llinynnol Blwyddyn 6 ac iau, 3ydd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau, 2il Unawd piano Blwyddyn 6 ac iau, 2il Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 5 a 6; Efa Glain 1af Unawd Blwyddyn 3 a 4, 1af Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 3 a 4; Elin Roberts 3ydd Unawd Llinynnol Blwyddyn 6 ac iau; Ensemble offerynnol 3ydd: Cerddorfa/band 2il: Grŵp dawnsio disgo 2il

### Eisteddfod Sir

Llongyfarchiadau gwresog i aelodau'r Gân Actol ar eu llwyddiant ysgubol. Roedd y beirniad, Rhian Parry yn llawn canmoliaeth ac yn cyfeirio at y Gân Actol fel "chwil o Gân Actol!" a'u bod "wedi taro deuddeg" a "rydych wedi ticio'r bocsys i gyd". Cafwyd perfformiad gwirioneddol wefreiddiol, oedd yn gampwaith, a'r plant i gyd ar eu gorau. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gael gweld y cyfan ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bala ar ddydd Llun, 26 Mai.



Mae'r ffaith ein bod yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol eto eleni yn destun balchder i ni i gyd. Diolch i bawb sydd wedi helpu mewn cymaint o wahanol ffyrdd i sicrhau bod y plant yn perfformio i safon mor uchel. Diolch i bawb am eu cymorth gyda phob elfen o'r Gân Actol, gan fod tîm o bobl wedi gweithio'n galed mewn amrywiol ffyrdd i sicrhau'r llwyddiant hwn.

Cafodd Gwydion Rhys (blwyddyn 6) ddiwrnod i'w gofio hefyd gan ennill y wobwr gyntaf ar yr unawd cerdd dant a'r unawd llinynnol yn chwarae ei soddgrwth a chafodd yr ail wobwr am chwarae'r piano.

Llongyfarchiadau yn ogystal i Cerys Elen ar ennill y drydedd wobwr yn chwarae'r cornet.

Dymuniadau gorau i Gwydion a chriw y gân actol yn y Bala dirion deg!

### Noswaith o Ddawns



Aeth criw o ddisgyblion Blwyddyn 4 i'r Galeri yng Nghaerparfon i gymryd rhan yn y 'Noswaith o Ddawns' - noson o ddawnsfeydd amrywiol eu naws gan ddisgyblion cynradd ac uwchradd y sir. Fe berfformiodd ein criw y ddawns ddisgo yn egniol a llawn bwrlwm. Diolch yn fawr i Miss Nicola am eu hyfforddi ac i Miss Sara am helpu, ac i'r rhieni am ddod i'w cefnogi. Llongyfarchiadau i'r criw ar ennill yr ail wobwr yn yr Eisteddfod Symudol yn ogystal.

### Dydd Gŵyl Dewi Sant

Unwaith eto, llwyddwyd i godi'r to a chafwyd cyngerdd gwerth chweil yn neuadd yr ysgol i ddathlu dydd ein nawddsant! Da iawn chi blant am ddysgu'r dorreth o farddoniaeth ac ati ar y cof - bydd hyn gennyh ar gof a chadw am weddill eich oes. Cafodd y cyngerdd ei ffilmio ac mae'r DVD ar gael yn awr! Diolch yn fawr i chi rieni ac aelodau'r gymuned am ddod i'n cefnogi.

### Celf a chreffft yr Urdd

Daeth llu o wobrau i'r ysgol ym maes Celf a Chreffft - 33 i gyd! Llongyfarchiadau i bob un ohonoch. Gweler ein gwefan am y manylion llawn.

### Ymweld â'r llyfrgell

Aeth plant dosbarth Mrs Rona Williams am dro i lyfrgell Bethesda. Cafwyd croeso bendigedig gan y staff, a bu'r plant yn ddiogon ffodus i gael y cyfle i wrando ar storiâu Llyfr Mawr y Plant. Roedd pawb wrth eu boddau, gan fod Llyfr Mawr y Plant yn gryn ffefryn gan blant Blwyddyn 1 a 2 Ysgol Llanllechid. Gobeithio y bydd pawb yn defnyddio eu cardiau aelodaeth ac yn mynychu'r llyfrgell yn rheolaidd o hyn ymlaen!

## Ysgol Llanllechid (parhad)

### Coginio

Bu dosbarth Blwyddyn 3 yn astudio bwydydd o wahanol wledydd ac yn wythnosol mae pawb yn sôn am yr arogl hyfryd sy'n llenwi'r corridor uchaf! O'r Paella, y Croque Monsieur a'r pizzas i'r crempogau a'r cawl cennin!! Mmmm! Plant lwcus!

### Gala nofio cylch Bangor/Ogwen

Fe fu tîm nofio'r ysgol yn cymryd rhan yn y gala nofio ar gyfer ysgolion lleol yr ardal dan arweiniad ein cydlynnydd Addysg Gorfforol - Mr Stephen Jones. Fe gawsant hwyl dda iawn arni - pawb yn trio eu gorau glas. Fe ddaeth y canlynol i'r tri uchaf:

Leni Ceirios - 2ail a 3ydd

Boe Celyn - 3ydd a 3ydd

Cai Wyn - 3ydd a 1af

Louis - 3ydd

Osian Moore - 3ydd

### Dod a Hanes yn Fyw

Roedd pawb wrthi'n dysgu'n frwd yn ystod ein diwrnod arteffactau o'r Ail Ryfel Byd. Cafwyd cymaint o amrywiaeth gan gynnwys: mygydau nwy babi ac oedolyn, dillad milwrol, ffotograffau teuluol, cardiau adnabod, llyfrau dogni bwyd, darnau o arfau ac awyrennau, arteffactau o deulu gŵr a fu'n adeiladu'r bont enwog dros yr afon Kwai, yn ogystal â dagr trawiadol o'r Dwyrain Canol. Ar ôl cyflwyniadau slic cafwyd digonedd o gyfle i ymchwilio ymhellach. Diolch i bawb, yn deuluoedd a chymdogion, fu'n cyfrannu i'r diwrnod addysgiadol a chofiadwy iawn.

### Bendant

Cafodd y disgyblion canlynol eu dewis i ymuno gyda'r rhaglen Cyw ar S4C sef Bendant: William Jones, Cian Mcleod, Gwen Isaac, Daniel Jones, William Roberts, Maia Sturrs, Erin Griffiths a Gwion Pritchard. Llongyfarchiadau i chi!

### Ffarwel a diolch

Diolch i Ms Anna a dreuliodd gyfnod hefo ni ar Ymarfer Dysgu yn nosbarth Mrs Wilson; bu'n fraint cael dy gwmmi a phob dymuniad da i'r dyfodol. Diolch hefyd i Ms Molly Corfield am ei gwasanaeth hithau a phob dymuniad da yn Ysgol Pendalar.



Mae'r Byd yn Wahanol - Beth yw'r Rots!  
The World is Different - So what?

### Cymdeithas Cefnogi Aspergers/

#### Awtistiaeth Gwynedd a Môn

Mae'r Gymdeithas yn Elusen Gofrestredig - 1101925 - sydd yn cynnig cefnogaeth, gwybodaeth a gweithgareddau ar gyfer yr Aelodau.

'Rydym yn awyddus i benodi gweithiwr i roi cefnogaeth i'r Aelodau wrth drefnu, datblygu a chefnogi gweithgareddau. Bydd disgwyl i'r deilodd weithio o'i gartref am gyfnod o 8 awr yr wythnos ar gyfartaledd.

Telir cyflog o £17,000 pro rata, .45c y filltir at redeg car a chyfraniad at wresogi a.y.b. y cartref.

Ceisidau trwy anfon CV i Ysgrifennydd y Grŵp ar [almed6@btinternet.com](mailto:almed6@btinternet.com)

neu trwy'r post i

6 Ffordd Crwys, Penrhosgarnedd, LL57 2NT

erbyn 25 Ebrill, 2014.

## Ysgol Dyffryn Ogwen

### Eisteddfod Cylch yr Urdd

Bu nifer dda o'r disgyblion yn cymryd rhan yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn ddiweddar. Dyma'r rhestr o'r llwyddiannau -

#### Unawd Merched Blwyddyn 7 i 9

1af Elen Wyn  
2il Mari Williams  
3ydd Cadi Rhys

#### Deuawd Blwyddyn 7 i 9

2il Cadi Rhys ac Anna  
3ydd Stephanie Owen ac Efa Williams

#### Unawd merched Blwyddyn 10 i 13

1af Rhiannon Llwyd

#### Unawd Bechgyn Blwyddyn 10 i 13

1af Math Owen

#### Deuawd Blwyddyn 10 i 13

1af Rhiannon Llwyd a Math Owen

#### Parti Merched Blwyddyn 7 i 9

1af Elin a'r Gang, Ysgol Dyffryn Ogwen  
2il Beca a'i chriw, Ysgol Dyffryn Ogwen

#### Côr Blwyddyn 7 i 9

1af Ysgol Dyffryn Ogwen

#### Ensemble Offerynnol Blwyddyn 7 i 9

1af Triawd Chwyth Ysgol Dyffryn Ogwen

#### Deuawd Offerynnol Blwyddyn 13 ac iau

1af Rhiannon Llwyd a Beca Nia

#### Deuawd Cerdd Dant Blwyddyn 7 i 9

1af Buddug Roberts ac Elen Wyn

#### Llefaru unigol Blwyddyn 7 i 9

3ydd Beca Nia

#### Grŵp Llefaru Blwyddyn 7 i 9

2il Grŵp Hannah, Ysgol Dyffryn Ogwen

#### Llefaru unigol Blwyddyn 7 i 9 i ddysgwyr

1af Hannah Cook

#### Ymgom Blwyddyn 7 i 9

1af Parti Martha, Ysgol Dyffryn Ogwen  
3ydd Parti Esme, Ysgol Dyffryn Ogwen

### Noson Ddathlu John Ogwen

Bu'r Côr Hŷn yn cymryd rhan mewn noson i ddathlu pen-blwydd John Ogwen yn 70 yn y Clwb Criced ar nos Fercher, 26 Mawrth. Recordiwyd y noson ar gyfer ei darlledu gan Radio Cymru. Roedd Nia Roberts yn cyflwyno gyda John Ogwen yn trafod gyda'r gynulleidfa ac yn adrodd straeon di-ri am ei brofiadau yn y byd actio dros y blynyddoedd. Perfformiodd y côr ddwy gân, sef trefniant o'r gân draddodiadol 'Wrth Fynd Hefo Deio i Dywyn' a 'Tyrd am Dro' allan o'r sioe gerdd Streic a gomisiynwyd gan yr ysgol i ddathlu canmlwyddiant Streic Chwael y Penrhyn. Cafwyd ymateb arbennig gan y gynulleidfa i berfformiad y Côr. Da iawn chi ddisgyblion yn ogystal â chantorion ychydig mwy profiadol!

### Masnach Deg

Wythnos diwethaf, daeth Liz Perkins atom i siarad am Fasnach Deg fel rhan o'n gwersi Bagloriaeth Cymru. Rydym yn gorfod dysgu am gyfrifoldeb yr unigolyn wrth hybu Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Roedd Liz Perkins yn siarad am ffermwyr siocled yng ngwledydd y trydydd byd. Dysgom fod y cwmni Masnach Deg yn helpu'r sefyllfa yng ngwledydd y trydydd byd trwy wneud yn siŵr bod y ffermwyr yn cael prisiau teg am eu ffa coco gan y gwledydd cyfoethog sydd yn eu prynu i wneud siocled a chael elw mawr. Rydym yn gallu helpu'r gwledydd trwy brynu cynnyrch Masnach Deg. Mae cynnyrch Masnach Deg ychydig bach yn ddrytach ond mae'n werth hyn gan ei fod yn sicrhau nad oes plant yn gweithio i wneud y nwyddau a bod y ffermwyr sy'n gwneud y cynnyrch yn gallu fforddio i gynnal eu teuluoedd.

Cara Thomas, Blwyddyn 12

### Ymweliad Rhydychen a Caergrawnt

Ar Fawrth yr 17eg es i a Gwynfor Rowlinson i Rydychen ar gyfer diwrnod blasu wedi'i drefnu gan "Pathways". Roedden ni'n rhan o

500 gafodd eu dewis o 1500 o geisiadau. Teithion ni i lawr ar yr 17eg ac aros yng Ngholeg yr Iesu sy'n cael ei alw'n "Coleg y Gymraeg". Cawson ni'r cyfle i gyfarfod â myfyrwyr a mwynhau ymlacio yn eu cwmni wrth ofyn cwestiynau a dysgu am fywyd myfyriwr yn Rhydychen.

Ar yr 18fed mynychodd Gwynfor ddarlithoedd diwinyddiaeth tra cefais i flas ar fywyd myfyrwraig seicoleg arbrofol. Ynglwm â mynychu darlithoedd cawsom gyfle i ddysgu am fywyd cymdeithasol yn Rhydychen, cyfweliadau a sut i wneud cais.

Yn ychwanegol fe wnes i gais llwyddiannus i fod yn rhan o gwrs preswyl 3 diwrnod yn astudio'r dyniaethau yng Ngholeg Magdalen Caergrawnt o'r 26ain i'r 28ain o Fawrth. Dewisais fynychu darlithoedd amrywiol o bensaerniaeth Rhufain a dirywiad crefydd yn ein cymdeithas i effaith mytholeg Roegaidd ar gwmmiau coffi yn ogystal â dysgu am y broses o wneud cais.

Bethan Hughes, blwyddyn 13

### Adran Addysg Gorfforol

Curodd tîm rygbi dan 13 Goleg Dewi Sant o 54 i 19 a byddant yn chwarae yn erbyn Brynrefail neu Tryfan yn rownd gynderfynol cwpan Eryri.

Llongyfarchiadau i Beca Nia a Sophie Ellis a fu'n cynrychioli Ysgolion Gogledd Orllewin Cymru yn Athletau dan do Cymru yn ddiweddar. Daeth tîm y genethod dan 13eg yn 3ydd drwy Gymru a chafodd Sophie Ellis y fedal efydd am daflu'r pwysau yn y gystadleuaeth unigol. Cafodd Beca drydydd gyda'r tîm ras gyfnewid hefyd.

Bu'r tîm pêl-rwyd dan 14 yn cymryd rhan mewn cynghrair i ysgolion Arfon dros yr wythnosau diwethaf. Cafwyd ambell i fuddugoliaeth ar hyd y ffordd ond daeth y fenter i ben gyda thwrnamaint ym Maes Glas ddiwedd Mis Mawrth. Enillwyd y gêm yn erbyn Dyffryn Nantlle B o 11 i 2 a chollwyd y gêm yn erbyn Bangor o 4 i 3! Aeth y genethod ymlaen i'r gystadleuaeth cwpan lle chwaraewyd yn erbyn tîm A Dyffryn Nantlle. Roedd yn gêm gyffrous iawn gyda'r sgôr amser llawn yn 3-3. Aeth y gêm ymlaen i amser ychwanegol ond colli o 2 i 1 fu hanes Ysgol Dyffryn Ogwen ar ôl gêm gystadleuol tu hwnt. Da iawn genod!

Llongyfarchiadau i ddisgyblion TGAU Addysg Gorfforol a fu'n perfformio yn yr arholiad ymarferol yn ddiweddar. Roedd y disgyblion yn arddangos ffrwyth dwy flynedd o waith caled ac yn wir 'roedd yr arholwr yn clodfodi'r perfformiadau a'r hyfforddi. Pob lwc yn arholiadau'r haf.

## Clwb Criced a Bowlio BETHESDA

Lôn Newydd, Bethesda, Gwynedd  
LL57 3DT

ClwbCricedBethesda  
(01248) 600833

[CricedBethesdaCricket@outlook.com](mailto:CricedBethesdaCricket@outlook.com)



### Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant. Cynghori, gosod a thorri wigiau Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

### DAFYDD CADWALADR

#### Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr Ysglodion pren i'r ardd Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

### Pob math o waith trydanol

## Huw Jones

#### Ymgwymerwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda  
Gwynedd LL57 3ST  
Ffôn: 01248 602480

STEPHEN  
JONES



TREFNYDD  
ANGLADDAU

### Hefyd ymgymryd â gwaith cerrig beddi: adnewyddu neu o'r newydd

Gweithdy Pen-y-bryn  
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455  
gartref 602455  
personol 07770 265976  
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

## Y Douglas Arms

\* Lluniaeth i Bartion \* Te Cynhebrwng \*  
\* Gardd Gwrw \* Te a Choffi \*  
Oriau Agor  
Llun - Gwener: 6.00 - 11.00  
Sadwrn: 3.30 - 12.00  
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00  
01248 600219  
www.douglas-arms-bethesda  
Cewch groeso cynnes gan  
Gwyn, Christine a Geoffrey

## Gareth Williams

### Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel  
1 Ffordd Garneddwen  
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

## Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o  
bob math ar gael ar y safle  
Prisiau rhesymol  
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



## CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus  
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyro ar gyfer  
partion o bob math -  
plant, pen-blwydd ac ati  
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur  
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

## BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partion  
o bob math - dathlu pen-blwydd  
ac achlysuron arbennig eraill.  
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

**Londri Coed y Brenin**  
wneud eich golchi

## Londis Bethesda

01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr  
7 diwrnod yr wythnos

## JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045  
Caernarfon 01286 676070  
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol  
Stoc helaeth ac amrywiol  
Croeso i gyfrifon masnachol  
Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768  
Llanrwst 01492 640794  
Siop yn 01492 640794  
Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

## Canolfan Cefnfaes BORE COFFI Neuadd Talgai

Sadwrn 3 Mai 2014  
10.00 - 12.00

**Mynediad £1.00**  
Stondinau a Raffl

## Canolfan Cefnfaes BETHESDA

### GYRFA CHWIST

Ebrill 22 a 29  
Mai 13 a 27  
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

## Annibynwyr Dosbarth BANGOR A BETHESDA

Sul 18 Mai 2014

### Cymanfa Ysgolion

ym Mhendref, Bangor  
am 10.30

### Cymanfa Ganu

yn Eglwys y Santes Fair  
a'r Santes Ann,  
Mynydd Llandygái  
(ar wahoddiad Eglwys Amana)  
am 5.00 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

## Marchnad Ogwen

Abbie Edwards a'i stodin Llwy Bren oedd yn cael sylw'r mis diwethaf ac fe ysgrifennwyd erthygl amdani. 'Rydym yn falch iawn o Abbie gan mai hi yw ein stondiniwr ieuengaf ac mae wedi dangos beth sy'n bosibl i ddisgybl ysgol hyd yn oed ei gyflawni. Dewch i'r Farchnad i brynu ei chacennau - chewch chi mo'ch siomi yn siŵr i chi!

### Newyddion o'r Farchnad

Roedd pawb ym Marchnad Ogwen yn cofio at Michelle, stodin sebon 'Popeth Neis' oedd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar, ond roedd hi'n braf iawn cael ei chroesawu hi, a'i mam efo 'Dwylo Pysur' yn ôl gyda ni ym Marchnad Ebrill.

Yn anffodus i ni, byddwn yn colli stodin Crefftau Sophie Parry o fis Mai ymlaen gan fod Sophie yn mynd i Awstralia am gyfnod. Diolch yn fawr iddi am ei gwaith fel aelod o Bwyllgor y Farchnad. Pob dymuniad da iti Sophie gan bawb o griw'r Farchnad a mwynha bob munud!

Mae gennym stondinau newydd erbyn hyn, Poblado Coffi sy'n gwerthu ffa coffi (wedi eu rhostio'n ffres), crefftau Mosaig, a Stodin Teganau wedi eu gwau a gwnïo. Bydd stodin siocled 'Pleser Pur' yn ymuno â ni yn fuan.

Wyddoch chi ei bod yn bosibl prynu pob math o bethau ym Marchnad Ogwen - llysiâu, ffirwythau, cacennau, caws gafr, cardiau cyfarch, crefftau unigryw a chwaethus, bara, cig lleol (wedi ei rewi), sebon, plancedi, bwyd Groegaidd, jam, mêl, wyau buarth a phlanhigion a blodau yn eu tymor, heb anghofio'r Caffi wrth gwrs. Mae angen stodin gaws arnom - ond NID caws gafr.

Mae'r Stondinau Elusen yn llwyddiant ysgubol ac 'rydym yn falch ein bod fel Marchnad yn gallu rhoi cefnogaeth i'r gwirfoddolwyr sydd mor frwdfrydig dros eu hachosion da. Yn anffodus, ni chafodd stodin mis Mawrth - sef SANDS - ei hyrwyddo. Dyma'r mudiad sy'n rhoi cefnogaeth i rieni sydd wedi colli babanod bach cyn amser eu geni, neu yn fuan wedyn. Achos teilwng yn wir.

Cylch Meithrin Cefnfaes fydd yn cynnal stodin mis Mai. Y mis nesaf sy'n rhydd yw mis Hydref.

Cynhelir y Farchnad nesaf ar 10 Mai yn y Clwb Rygbi o 10.00 y bore tan 2.00. Prynwch yn lleol a chefnogwch y lleol!  
Mae'r holl wybodaeth am y Farchnad ar ein gwefan [www.marchnadogwen.co.uk](http://www.marchnadogwen.co.uk), ar Facebook ac ar Twitter.

## Caffi Coed y Brenin BORE COFFI Cymorth Cristnogol

Sadwrn 10 Mai 2014  
10.00 - 12.00

**Mynediad £1.00**

## Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol  
10am - 2pm

**Mai 10 fed**

Yn y Clwb Rygbi, Bethesda

**Mehfin 14 eg**

Ar gae Sioe Dyffryn Ogwen

### Bwydtdd, Crefftau, Caffi

[www.marchnadogwen.co.uk](http://www.marchnadogwen.co.uk)  
Twitter #marchnadogwen  
Facebook

## Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen



Ar nos Lun, 10 Mawrth, cynhaliwyd Darlith Goffa Rhiannon Rowlands.

Geneth leol, sef Elin Gwyn o Sling, oedd y darlithydd ac fe fu'n "Dehongli portreadau cyfoes o'r bröydd chwarelyddol" i gynulleidfa niferus.

Cyflwyniad hynod o ddiddorol a oedd yn ffirwyth ei hymchwil yn y Brifysgol.

**S4/C** Calon Cenedl  
Heart of the Nation

Isdeitlau  
Subtitles

## Band Cymru

9.00  
Nos Sadwrn 26 Ebrill  
Saturday 26 April

Chwyth, pres a jazz...  
gornest gerddorol sydd  
â digon o sŵn a sglein.  
Wind, brass and jazz  
musicians tune up for a  
battle of the bands.

[s4c.co.uk](http://s4c.co.uk)

